# Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
# Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
# 2022 – 2023

## GWERTHOEDD EIN CYNGOR
## "Cefnogol – Teg - Effeithiol"

## Cynnwys

**Ein Datganiad Cydraddoldeb** .......... 3

**Cyflwyniad** .......... 3

**Cyd-destun** .......... 3

**Y Ddyletswydd Cydraddoldeb** .......... 8

**Amcanion Cydraddoldeb a'n Cynnydd** .......... 6

**Amcan 1** .......... 8

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda gweithlu sy'n ymwybodol a bwysigwrydd cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn ei ddeall .......... 11

**Amcan 2** .......... 11

Sicrhau bod pobl a chymunedau yn cael parchu eu hawliau ac yn teimlo'n ddiogel rhag trais a chamdriniaeth .......... 14

**Amcan 3** .......... 20

Gweithio i ddileu afanteision a rhwystrau sy'n ei gwneud yn anodd i bobl gael yr un cyfleoedd â phawb arall .......... 20

**Amcan 4** .......... 34

Cynnwys pobl a chymunedau yn y materion sy'n bwysig iddyn nhw a'r penderfyniadau rydym yn eu cymryd .......... 32

**Amcan 5** .......... 39

Sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio gyda'i ddyletswyddau statudol o ran cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg .......... 36

**Gwybodaeth ychwanegol** .......... 38

**Atodiad A.** .......... 40

**Data Monitro Cydraddoldeb Gweithwyr** .......... 40

## Ein Datganiad Cydraddoldeb

"Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymroddedig i gyflawni mwy o gydraddoldeb fel cyflogwr ac wrth ymgymryd â phob agwedd o'i fusnes. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu a darpar aelodau staff yn cael cyfle cyfartal i ddefnyddio pob un o'n gwasanaethau a chyfleoedd.

Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw un yn derbyn triniaeth llai ffafriol o ganlyniad i feddu ar nodwedd warchodedig benodol. Os yw'n amlwg bod anghydraddoldeb mewn triniaeth neu ganlyniad, bydd y Cyngor yn cymryd camau penodol i ddelio ag anghydraddoldeb o'r fath.

Byddwn yn canolbwyntio ar adnabod materion anghydraddoldeb yn Nhorfaen a sut byddwn yn gweithio tuag at gael gwell canlyniadau i bobl lle mae tystiolaeth o anghydraddoldeb yn ein darpariaeth gwasanaeth. Credwn y gall holl ddinasyddion Torfaen ddisgwyl cael eu trin yn deg a chyda pharch wrth ddefnyddio neu ddod i gysylltiad â gwasanaethau'r Cyngor a byddwn yn gweithio'n agos gyda'r cyhoedd a'n partneriaid lle nad yw safonau felly yn amlwg.

Mae sicrhau bod ein gwasanaethau yn helpu a chynorthwyo pobl sy'n agored i niwed yn ein cymunedau yn flaenoriaeth bwysig i'r Cyngor. Byddwn yn gweithio i wella a chynnal ein gwasanaethau fel eu bod yn cynorthwyo ac amddiffyn hawliau'r bobl a'r grwpiau sy'n dod dan y Ddeddf Cydraddoldeb."

## Cyflwyniad

Gallwn ond ddarparu gwasanaeth effeithiol os ydym yn cydnabod yr amrywiaeth sy'n bodoli yn ein cymunedau a galluogi ein gweithlu i ddiwallu anghenion a phryderon pob un o'n dinasyddion. Mae cydraddoldeb a thegwch yn sylfaen i waith ac ethos y Cyngor ar bob lefel. Er gwaethaf yr amgylchiadau economaidd caled rydym wedi eu hwynebu fel Cyngor, rydym wedi parhau i geisio cyflawni tegwch ym mhob un o'n gwasanaethau ac ym mhob un o'n gweithgareddau.

Mae Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar ein cynnydd o ran y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2020 - 2024) yn un o'r ffyrdd y mae'r Cyngor yn gwneud yn weladwy i ba raddau y mae'n cyflawni ei rwymedigaethau i gydnabod amrywiaeth a hybu mwy o gydraddoldeb. Mae'n adrodd llawer o'r hanes o ran ein cynnydd mewn perthynas â'r pum amcan cydraddoldeb y mae'r Cyngor wedi eu pennu ar gyfer ei hun, ond nid dyma'r stori gyflawn. Cafwyd llawer o lwyddiannau ac fe wnaed cynnydd ar faterion sy'n effeithio lles ehangach ein cymuned, ac ymhlith y sawl sy'n wynebu anfanteision yn arbennig, drwy hybu ein blaenoriaethau dan Gynllun Sirol y Cyngor.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn amlinellu'r gweithgareddau sydd wedi cael yr arwyddocâd mwyaf o ran cynnydd y Cyngor yn hyrwyddo mwy o gydraddoldeb a chyflawni cyfrifoldebau'r Cyngor dan y dyletswyddau cyhoeddus a gynhwysir yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ystod 2022-2023.

## Cyd-destun

Yr Adroddiad Cydraddoldeb Strategol Blynyddol yw cynnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol **1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023**, a hwn yw'r trydydd o'r pedwar adroddiad blynyddol ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024**.**

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y 5 Amcan Cydraddoldeb Strategol ac yn ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud dan y camau gweithredu ar gyfer pob un.

Er gwaethaf yr amgylchiadau ariannol heriol iawn y mae'r sector cyhoeddus yn parhau i weithredu ynddo a phwysau pandemig Covid-19 a'n camau i addasu ac ymateb i'r argyfwng costau byw sy'n datblygu o flaen ein llygaid, mae'r Cyngor wedi gallu gwneud cynnydd go iawn mewn nifer o feysydd yn ei Amcanion Cydraddoldeb, yn aml drwy waith partneriaeth, harneisio hyblygrwydd lleol ac integreiddio ei waith i ddatblygu dull ystyrlon o ran cyflenwi ei flaenoriaethau i gymuned Torfaen.

**Y Ddyletswydd Cydraddoldeb**

Fe wnaeth y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ddwyn at ei gilydd a disodli cyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol gydag un Ddeddf. Daeth mwyafrif y Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010. Mae'r Ddeddf yn cynnwys **dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus** (y 'ddyletswydd gyffredinol'). Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

**<u>Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?</u>**

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r sawl sy'n ymgymryd â swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut gallent gyfrannu yn gadarnhaol tuag at gymdeithas decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda yn eu gweithgareddau beunyddiol. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys wrth ddylunio polisïau a chyflenwi gwasanaethau a'u bod yn cael eu harolygu'n rheolaidd. Bydd hyn yn cyflawni canlyniadau gwell i bawb.

Mae gofyn i'r cyngor, dan Reoliadau'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, baratoi adroddiad monitro blynyddol ar y camau y mae wedi eu cymryd i gyflawni'r ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus a'i Amcanion Cydraddoldeb ei hunan. Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf i bennu dyletswyddau penodol ar wasanaethau cyhoeddus sy'n fwy na'r hyn sy'n ofynnol dan y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried sut maent yn cyfrannu'n gadarnhaol i gymdeithas decach drwy gyflenwi gwasanaethau wrth ystyried sut i ddileu gwahaniaethu.

Mae gofyn i gyrff cyhoeddus dalu sylw at yr angen i:

1. Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.

2. Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r sawl nad ydynt.

3. Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r sawl nad ydynt.

Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at y dair elfen hon fel tri 'nod' y ddyletswydd gyffredinol ac felly pan fyddwn yn trafod y ddyletswydd gyffredinol rydym yn golygu'r tri nod.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn delio gyda'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil *
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Rhywedd
- Cyfeiriadedd rhywiol

*Mae'r berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond o ran y gofyniad i ddileu gwahaniaethu mewn cyflogaeth.

Defnyddir y term 'grŵp gwarchodedig' weithiau i gyfeirio at bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig.

**Ein Hamcanion Cydraddoldeb a’n Cynnydd**

Mae pump o amcanion yr ydym yn gweithio tuag atynt yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sef:

| | |
|---|---|
| **Amcan 1**<br>*Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda gweithlu sy’n ymwybodol o ac yn deall pwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth* | |
| **Amcan 2**<br>*Sicrhau bod pobl a chymunedau yn cael parchu eu hawliau ac yn teimlo’n ddiogel rhag trais a chamdriniaeth* | |
| **Amcan 3**<br>*Gweithio i ddileu anfanteision a rhwystrau sy’n ei gwneud yn anodd i bobl gael yr un cyfleoedd â phawb arall* | |
| **Amcan 4**<br>*Cynnwys pobl a chymunedau yn y materion sy’n bwysig iddyn nhw a’r penderfyniadau rydym yn eu cymryd* | |
| **Amcan 5**<br>*Sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio gyda’i ddyletswyddau statudol o ran cydraddoldeb a’r iaith Gymraeg* | |

Mae **58 o gamau** gweithredu ar draws y pum amcan. Mae cynnydd tuag at amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn rhywbeth i’r cyngor cyfan ac yn dibynnu ar bob maes gwasanaeth yn arddangos ymrwymiad i hyn.

Yn y flwyddyn adrodd hon, gofynnwyd i’r swyddogion arweiniol:

- Pa gynnydd a wnaed yn ystod 2022/23?
- Pa heriau a gafwyd?
- Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?

Drwy ofyn y cwestiynau penodol hyn, rydym yn gallu deall y prif lwyddiannau ar gyfer y flwyddyn, a oes her gyfunol i swyddogion yn y maes hwn ac i bennu’r dyheadau ar gyfer y flwyddyn adrodd nesaf.

**<u>Llwyddiannau Allweddol ar gyfer 2022/2023</u>**

Gellir pwysleisio llwyddiannau allweddol yn y flwyddyn adrodd hon fel a ganlyn:

- Dyluniwyd modiwl hyfforddiant recriwtio, y bydd gofyn i bob rheolwr ei gwblhau cyn iddynt gynnal cyfweliadau. Mae hyn yn cynnwys arferion gorau a phrosesau.

- Cytunwyd ar Strategaeth Gweithlu sy'n cynnwys Fframwaith Lles sydd â phwyslais ar Iechyd Meddwl. Mae bwletin yn cael ei gynhyrchu'n fisol sy'n edrych ar agweddau ar lesiant ac mae tudalen we bwrpasol wedi'i sefydlu i ddarparu adnoddau i staff.

- Mae cynllun gweithredu llesiant yn cael ei ddatblygu a fydd yn cefnogi lles meddyliol yn y gweithle.

- Rydym wedi lleihau'r niferoedd NEET ar gyfer 2022/3 a nifer y bobl ifanc ‘anhysbys’ sy'n gadael blwyddyn 11.

- Yn ystod 2022/23 fe wnaeth y Cyngor ddarparu dros £800,000 o gymorth costau byw i drigolion sydd mewn perygl. Targedwyd cefnogaeth at grwpiau blaenoriaeth gan gynnwys y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a thrigolion hŷn sy'n derbyn prydau cymunedol.

- Aeth tîm y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ati i gynnal Cynhadledd Flynyddol Cymunedau Sy’n Deall Dementia yng Ngwent ym mis Medi 2022. Dyma oedd y cyntaf o’i bath ers y pandemig. Roedd hyn yn gyfle i weithwyr proffesiynol, arbenigwyr yn ôl profiad a chymunedau ddod at ei gilydd a rhannu dysgu, syniadau a chydweithio i wella ymwybyddiaeth, cynhwysiant a chefnogaeth. Denodd y digwyddiad 135 o bobl ac fe wnaeth 34 arall fynychu ein cynhadledd gweminar gyda’r nos.

- Mae Cam 1 prosiect Cynghrair Ieuenctid Torfaen (TYA) wedi'i gwblhau'n llwyddiannus gyda Chyfnod 2 yn cael ei gyflwyno o fis Mawrth 2023.

- Yn 2022/23, fe lwyddodd y Tîm Cynhwysiant Ariannol godi/arbed £86,633.76 i’w cleientiaid drwy hawlio budd-daliadau, ceisiadau grant, lleihau gwariant ac ati. Llwyddodd y Tîm i atal 19 o bobl rhag dod yn ddigartref a ganlyniad i’w hymyriadau.

- Mae swyddogion wedi gweithio’n agos gyda Fforwm Mynediad Torfaen a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau ac effeithiol wrth fynd i’r afael â materion yn yr amgylchedd adeiledig.

**<u>Heriau Allweddol a gafwyd yn 2022/2023</u>**

Yr heriau allweddol ar draws yr awdurdod lleol ar gyfer y cyfnod adrodd oedd:

- Diffyg adnoddau (capasiti) yn y timau.
- Diffyg gwybodaeth/cefnogaeth gan asiantaethau eraill ynghylch meysydd sy’n newid.
- Ymgysylltu'n llwyddiannus â phob aelod o'n cymunedau

## Cynnydd tuag at yr Amcanion

<table>
<tr><td colspan="2">Amcan 1<br>Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda gweithlu sy’n ymwybodol o ac yn deall pwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth</td></tr>
<tr><td>Amcan: 1<br>Cam: A</td><td>Datblygu hyfforddiant ar bynciau cydraddoldeb ac amrywiaeth.</td></tr>
<tr><td>Swyddog Adrodd:</td><td>Sarah Tipping</td></tr>
<tr><td colspan="2">Lluniwyd modiwl e-ddysgu ar gydraddoldeb yn 2021/22 ac mae'n barod i'w gyflwyno'n orfodol i staff.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Amcan: 1<br>Cam: B</td><td>Datblygu’r broses gynefino i staff a sicrhau bod y gwerthoedd a fanylir yn y Ffordd Rydym yn Gweithio (gan gynnwys ymddygiad teg) yn cael eu hymgorffori o fewn sesiynau goruchwylio ac arfarniadau gwaith blynyddol.</td></tr>
<tr><td>Swyddog Adrodd:</td><td>Tracy Harris</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Er bod y broses gynefino wedi'i datblygu a'i gweithredu ac yn cynnwys agweddau ar gydraddoldeb, ni fu llawer o gynnydd ar ymgorffori'r gwerthoedd i brosesau goruchwylio ac arfarnu blynyddol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pa heriau a gafwyd?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cafwyd blaenoriaethau eraill yn ystod y 12 mis diwethaf a diffyg adnoddau i ymrwymo i'r darn hwn o waith.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae angen ailgynllunio a fformatio sesiynau arfarnu a goruchwylio blynyddol er mwyn ystyried y newidiadau i'r ffordd y mae staff yn gweithio ers y pandemig.  Bydd y darn hwn o waith yn cael ei ystyried gyda'r blaenoriaethau ar gyfer 2023/24.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Amcan: 1<br>Cam: C</td><td>Ystyried arferion gorau mewn prosesau recriwtio ac ymgymryd ag arolwg i sicrhau ein bod yn recriwtio mor deg ag y bo modd..</td></tr>
<tr><td>Swyddog Adrodd:</td><td>Angela Rogers, Tina Hulme a Tracy Harris</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae modiwl Hyfforddiant Recriwtio wedi'i ddylunio y bydd gofyn i bob rheolwr ei gwblhau cyn iddynt gynnal cyfweliadau.  Mae hyn yn cynnwys arferion gorau a phrosesau.  Disgwylir i'r modiwl gael ei weithredu yn ystod misoedd yr haf.<br><br>Prynwyd modiwl recriwtio newydd ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu a gweithredu modiwl recriwtio electronig a fydd yn sicrhau bod y dasg o ddewis ymgeiswyr yn gwella.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pa heriau a gafwyd?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ni nodwyd unrhyw heriau.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae darn o waith wedi'i gynllunio gyda'r gwasanaeth gwastraff fel rhan o'u cynllun gwella ehangach, a fydd yn ystyried sut rydym yn recriwtio i fwy o rolau gwaith llaw gan sicrhau ein bod yn ystyried gwahanol sgiliau a gofynion.  Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio prosesau recriwtio cyfredol.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Amcan: 1<br>Cam: D</td><td>Datblygu ein gwybodaeth o’n gweithlu drwy wella casglu data gweithlu i’n galluogi ni i ddileu unrhyw anghydraddoldebau.</td></tr>
<tr><td>Swyddog Adrodd:</td><td>Angela Rogers</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ni wnaed cynnydd ar y cam hwn yn ystod 22/23.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pa heriau a gafwyd?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Diffyg adnoddau staff.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd yn cael ei ystyried fel rhan o gynllun gwaith AD ar gyfer2023/24.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Amcan: 1<br>Cam: E</td><td>Hybu gweledigaeth ac egwyddorion Llywodraeth Cymru o’r Arolwg Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau i geisio rhannu mwy o bŵer, adnoddau a dylanwad i holl fenywod, dynion a phobl anneuaidd.</td></tr>
<tr><td>Swyddog Adrodd:</td><td>Tina Hulme</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ni wnaed cynnydd o ran y pwynt hwn yn 2022/23.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pa heriau a gafwyd?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Diffyg adnoddau</td></tr>
<tr><td colspan="2">Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd yn cael ei ystyried fel rhan o gynllun gwaith AD ar gyfer2023/24.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Amcan: 1<br>Cam: F</td><td>Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau – symud ymlaen ar gydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau yn y gweithlu.</td></tr>
<tr><td>Swyddog Adrodd:</td><td>Tina Hulme</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ni wnaed unrhyw gynnydd o ran y pwynt hwn yn ystod 2022/23.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pa heriau a gafwyd?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Diffyg adnoddau.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd yn cael ei ystyried fel rhan o gynllun gwaith AD ar gyfer2023/24</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Amcan: 1<br>Cam: G</td><td>Gweithredu’r Strategaeth Iechyd Meddwl.</td></tr>
<tr><td>Swyddog Adrodd:</td><td>Tracy Harris</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cytunwyd ar Strategaeth Gweithlu sy'n cynnwys Fframwaith Llesiant sydd â phwyslais ar Iechyd Meddwl. Mae bwletin yn cael ei gynhyrchu'n fisol sy'n edrych ar agweddau ar lesiant ac mae tudalen we bwrpasol wedi'i sefydlu i ddarparu adnoddau i staff.<br><br>Mae cynllun gweithredu llesiant yn cael ei ddatblygu a fydd yn cefnogi lles meddyliol yn y gweithle.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Adnoddau oedd ar gael o ran staff. | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Gweithredu agweddau pellach ar y Fframwaith Llesiant. | |
| | |
| **Amcan: 1**<br>**Cam: H** | Datblygu a gweithredu’r Strategaeth Gweithlu. |
| **Swyddog Adrodd:** | Tina Hulme |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Mae'r Strategaeth Gweithlu wedi cael ei datblygu a'i chymeradwyo gan y Cyngor. Mae ganddo gynllun i'w weithredu dros y 5 mlynedd nesaf. | |
| | |
| **Amcan: 1**<br>**Cam: I** | Hyrwyddo ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yn gysylltiedig â Nodweddion Gwarchodedig |
| **Swyddogion Adrodd:** | Sarah Tipping/Chris Hunt/Harriet Leek/Mike Morgan |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Rydym yn parhau i hyrwyddo cymaint o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth â phosibl sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig, ond roedd y flwyddyn adrodd hon yn anodd oherwydd bod nifer o rolau gwag yn y timau.<br>Roedd ymgyrchoedd cyfathrebu o ran dyddiadau ac ymgyrchoedd cydraddoldeb allweddol dros y cyfnod hwn yn cynnwys Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb, Mis Hanes Pobl Dduon, Mis Hanes LHGT, Wythnos Rhyng-ffydd ac Wythnos Ymwybyddiaeth Ffoaduriaid. | |
| | |
| **Amcan: 1**<br>**Cam: J** | Parhau i fod yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall ac ymdrechu i fod yn weithle cynhwysol i staff Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol. |
| **Swyddog Adrodd:** | Sarah Tipping |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Gwnaethom barhau â'n haelodaeth gyda Stonewall yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Fe wnaethom hefyd fynychu gorymdaith Pride Cymru a digwyddiadau cyntaf *Pride in the Port* (Casnewydd) fel rhan o rwydwaith Cynghorau Balch i ddangos ein hymrwymiad i fod yn weithle cynhwysol. | |
| | |
| **Amcan: 1**<br>**Cam: K** | Datblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu Hyderus o ran Anabledd. |
| **Swyddog Adrodd:** | Angela Rogers |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Dim cynnydd eleni. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Diffyg adnoddau staff. | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Bydd yn cael ei ystyried fel rhan o gynllun gwaith AD ar gyfer2023/24. | |

| **Amcan 2**<br>*Sicrhau bod pobl a chymunedau yn cael parchu eu hawliau ac yn teimlo'n ddiogel rhag trais a chamdriniaeth* | |
|---|---|
| **Amcan: 2**<br>**Cam: A** | Cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch hawliau'r unigolyn. |
| **Swyddog Adrodd:** | Sarah Paxton |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Mwy o hyrwyddo hawliau pobl a mynediad at eiriolaeth annibynnol. Rydym yn ymdrechu'n galed i gwmpasu'r sbectrwm eiriolaeth gyfan, o eiriolaeth gan gymheiriaid i eiriolwyr annibynnol proffesiynol. Mae Torfaen yn rhan o Wasanaeth Mynediad i Eiriolaeth Gwent (GATA), sef gwasanaeth rhad ac am ddim a ariennir gan grant sy'n cynnig cyngor a llwybr atgyfeirio fel y gall pobl geisio cymorth, a'r eiriolaeth gywir gan ddarparwr, sy'n gweddu i'w hanghenion. Rydym hefyd yn contractio gydag Age Cymru Gwent i dderbyn atgyfeiriadau ar gyfer Eiriolaeth sy'n ymdrin ag ystod eang o faterion y gallai fod eu hangen ar bobl er mwyn i'w llais gael ei glywed. Gallwn hefyd alw ar Gymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Cymru (MHFAW) i ddarparu Unigolyn Perthnasol i'w Cynrychioli, yn aml ar gyfer trigolion Cartrefi Gofal sydd hefyd angen cymorth i fynegi eu barn. Rydym yn parhau i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i Ofalwyr ac rydym yn cymryd rhan yn Niwrnod Hawliau Gofalwyr, sy'n tynnu sylw at hawliau gofalwyr i helpu gofalwyr di-dâl yn eu rôl. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Yn anffodus, daeth grŵp Pobl yn Gyntaf Torfaen i ben yn ystod 2022/23. Roedd hwn yn wasanaeth gwerthfawr a oedd yn cynnig hunangymorth ac eiriolaeth gan gymheiriaid i bobl ag Anawsterau Dysgu. | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Ailsefydlu'r grŵp Eiriolaeth AD yn Nhorfaen. Parhau i hyrwyddo eiriolaeth yn ei holl ffurfiau i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'u hawliau a bod ganddynt lais cryf i fynegi eu barn a'u dymuniadau. Parhau i estyn allan at ofalwyr di-dâl yn y gymuned i'w cynorthwyo pan fo angen, yn eu rôl. | |
| | |
| **Amcan: 2**<br>**Action: B** | Darparu cymorth i ysgolion i ymgorffori tegwch a chydraddoldeb yn eu cynlluniau ysgol a'u polisïau. |
| **Swyddog Adrodd:** | Alison Dally |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Mae Ysgolion Iach yn darparu polisïau enghreifftiol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) ac Addysg Camddefnyddio Sylweddau (Saesneg yn unig). Rhannwyd drafftiau o bolisïau Maeth a Gweithgarwch Corfforol enghreifftiol gydag Adran Arlwyo a Datblygu Chwaraeon CBST er mwyn cael eu sylwadau. Mae'r holl bolisïau yn deg a chyfiawn ac yn seiliedig ar y canllawiau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru.<br>Cafwyd cyflwyniad gwrth-fwlio yn hyfforddiant y Cynllun Cydraddoldeb Strategol gan y Swyddog Ysgolion Iach ac ABCh, ar 10.01.2023. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |

| | |
|---|---|
| Dod o hyd i adnoddau dwyieithog, dibynadwy am ddim i gefnogi polisïau iechyd a lles. | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Cyfieithu polisïau Addysg Camddefnyddio Sylweddau, Maeth a Gweithgarwch Corfforol i'r Gymraeg. | |
| | |
| **Amcan: 2**<br>**Cam: C** | Sicrhau bod gan holl ysgolion Torfaen strategaeth glir i wella ansawdd dysgu ac addysgu, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, i leihau amrywiadau mewn ysgolion fel bod holl ddisgyblion, gan gynnwys bechgyn a dysgwyr sy'n agored i niwed, yn gwneud cynnydd priodol dros amser. |
| **Swyddog Adrodd:** | Andy Rothwell |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/23?** | |
| Mae 4 ysgol yn darparu cymorth cyfannol i ysgolion eraill.<br>Mae 7 ysgol yn darparu cymorth dysgu proffesiynol i ysgolion ledled ardal y GCA mewn amrywiol feysydd cwricwlwm fel Ysgolion Rhwydwaith Dysgu.<br>Mae pob ysgol yn rhan o raglen asesu a dilyniant yn y cwricwlwm i glystyrau, sy'n cefnogi datblygu dulliau sy'n seiliedig ar ffocws a chydlyniad.<br>Mae 4 ysgol uwchradd yn cymryd rhan mewn Rhwydwaith Dylunio Uwchradd, yn cefnogi ysgolion i rannu dulliau dysgu proffesiynol a dylunio cwricwlwm.<br>Mae Ysgol Gatholig Sant Alban yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu pecyn asesu Cymru-gyfan gyda Phrifysgol Glasgow.<br>Mae 2 ysgol yn derbyn cymorth wedi'i deilwra i ddatblygu Addysgu ac Arweinyddiaeth<br>Mae 1 ysgol yng nghategori Estyn o gymharu â 4 ysgol yn 2020/2. Tynnwyd 1 ysgol o gategori yn 2022/23.<br>Mae 6 ysgol yn arwain addysg sy'n cefnogi'r dysgu ac arweinyddiaeth ar draws y GCA<br>Mae pob ysgol yn cymryd rhan yn y prosiect Ymchwiliad Proffesiynol Cenedlaethol gan ganolbwyntio ar un o bum prif thema.<br>Mae bron i bob ysgol (96%) wedi cymryd rhan yn arolwg Ysgolion fel Sefydliadu Addysg i gefnogi eu datblygiad fel sefydliadau dysgu. Mae hyn yn cymharu'n dda gyda rhanbarthau eraill fel bod y % uchaf o ysgolion yn cymryd rhan yn yr arolwg.<br>Mae gallu 'Grŵp Addysgu a Dysgu' Cwricwlwm Cymru yn gwella gallu'r ysgolion i rwydweithio a rhannu arferion; mae aelodaeth yn Nhorfaen yn 30 aelod allan o 380 o aelodau ledled y rhanbarth..<br>Mae Ysgol Abersychan wedi bod yn rhan o beilot Fframwaith Rheoli Talentau i adnabod 10 o arweinyddion uchelgeisiol y dyfodol.<br>Mae 16 o arweinwyr (16% o gyfanswm y rhanbarth) wedi hyfforddi fel Hyfforddwyr Hwyluso Cenedlaethol.<br>Mae 18 o arweinwyr wedi cymryd rhan yn y rhaglen Hyfforddi a Mentora genedlaethol (9% o'r boblogaeth gyfan).<br>Mae 12 pennaeth yn Nhorfaen yn cymryd rhan mewn arweinyddiaeth systemau ar draws y rhanbarth fel Partneriaid Gwella Ysgolion | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Mae'r ALl a'r GCA wedi gorfod aros yn sensitif ac ymatebol i anghenion ysgolion wrth iddynt barhau i wynebu heriau o ganlyniad i'r pandemig. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y pandemig wedi effeithio rhai grwpiau o ddysgwyr yn fwy nag eraill:<br>• Dysgwyr bregus a dan anfantais a'r rheini ag ADY<br>• Dysgwyr ôl-16 ac i ddarpariaeth ôl-16 – lle mae pwysau ac ansicrwydd efallai wedi effeithio eu hyder | |

- Blynyddoedd cynnar lle mae dysgwyr mewn perygl o fethu cerrig milltir datblygiadol allweddol ar gyfer iaith, datblygiad cymdeithasol, emosiynol, corfforol a gwybyddol.
- Heriau penodol i ddysgwyr trochi ar aelwydydd Saesneg, gan gynnwys dysgwyr sy'n pontio o Flynyddoedd 6-7.

**Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?**

- Adeiladu ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda – yn enwedig gydag agweddau ar y gwaith a oedd yn llwyddiannus fel rhan o'r cynnig rhithwir.
- Parhau i gefnogi ysgolion gyda chynnig sy'n cyd-fynd â disgwyliadau ALl a LlC a chysylltu gydag ymchwil newydd.
- Osgoi'r 'adlam' a bachu cyfleoedd i ystyried dulliau arloesol o weithio sy'n cyflenwi profiadau dysgu ystyrlon.
- Parhau gyda chyfarfodydd aml-asiantaeth i ysgolion uwchradd mewn mesurau arbennig. Mae hyn yn dilyn nifer cynyddol o astudiaethau achos sy'n dangos tystiolaeth o wella ysgolion ac arweinyddiaeth sy'n gwella pethau.
- Cysylltu'n llawn gyda chyfarfodydd Tîm o Gwmpas yr Ysgol. Mae'r cyfarfodydd hyn rhwng yr ysgol, ALl a'r GCA nid yn unig yn monitro cynnydd a'r cymorth a dderbyniwyd ond gallant hefyd ddarparu cyfleoedd i ddatrys problemau a datblygu camau gweithredu ar gyfer gwella ynghyd a herio tanberfformiad.
- Darparu dysgu a chymorth proffesiynol i ddatblygu arweinwyr a dysgu ar draws y gweithlu cyfan drwy'r ddarpariaeth gynhwysol, a dargedwyd a darparwyr wedi'i theilwra gan y GCA.

| | |
|---|---|
| **Amcan: 2**<br>**Cam: D** | Gwella adrodd am achosion o gamdriniaeth, bwlio ac aflonyddiad seiliedig ar hunaniaeth mewn ysgolion a chymryd camau priodol fel y bo angen. |
| **Swyddog Adrodd:** | Alison Dally |

**Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?**

Mae Arolwg Gwrth-fwlio Torfaen sy'n cael ei gwblhau yn flynyddol, yn cychwyn yn ystod Wythnos Gwrth-fwlio tan ddiwedd tymor yr hydref. Diben yr arolwg yw canfod canfyddiad dysgwyr o fwlio. Cyflwynir adroddiad bwlio unigol i'r ysgolion sy'n cymryd rhan. Mae'r adroddiad yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion i nodi patrymau a thueddiadau mewn ymddygiad bwlio a llywio gwaith gwrth-fwlio yn y dyfodol.

Mae'r arolwg yn casglu data am y nodweddion gwarchodedig ee, oed, hil, crefydd neu gred, rhyw (cenedl),tueddfryd rhywiol a bwlio sy'n gysylltiedig ag anabledd. Fodd bynnag, y blwch mwyaf cyffredin sy'n cael tic gan ddysgwyr yn yr arolwg yw "Arall". Roedd hyn yn cynnwys bwlio am "nad yw fy nhad… yn rhan o fy mywyd", "dweud bod fy nghi wedi marw", "dweud eu bod yn meddwl mod i'n fachgen drwg", "rhywun yn dweud 'shwsh' wrtha i".

Fe wnaeth 21 o'r 25 ysgol gynradd gymryd rhan yn yr arolwg, a chafwyd 2,405 o ymatebion. Fe wnaeth 4 o'r 8 ysgol uwchradd gymryd rhan yn yr arolwg, a chafwyd 1,259 o ymatebion.

Datgelwyd drwy Fforwm Ieuenctid Torfaen anghysondebau o ran sut y mae staff ysgolion yn ymateb pan adroddwyd achosion o fwlio (ee ddim yn cymryd materion o ddifrif, diffyg canlyniadau boddhaol). Er mwyn mynd i'r afael â hyn ac i atgyfnerthu pwysigrwydd cofnodi ac adrodd achosion o fwlio a gadarnhawyd, comisiynwyd *Positive Vibes International* i gyflwyno cyfres o bum gweithdy (13.10.21, 16.02.22, 30.03.22, 24.05.2022, 30.06.2022). Roedd y sesiynau'n cynnwys diweddariad ar ddulliau cyfredol o ddeall bwlio. Daeth grŵp ymroddedig o staff ysgolion cynradd i'r gweithdai a datblygu ffeithlun Perthnasoedd Cadarnhaol i annog

cysondeb yn y ffordd yr ymatebir i fwlio ledled yr awdurdod lleol. Cafodd staff ysgolion cynradd hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r ffeithlun mewn ffordd gyson (23.11.2022).

*Comisiynwyd Positive Vibes International* eto i gyflwyno dau weithdy “Creu diffiniad a rennir am fwlio”. Cynhaliwyd y gweithdy cyntaf ar 28.02.2023 a fynychwyd gan 22 aelod o staff ysgol. Bwriedir cynnal yr ail weithdy ar 06.06.2023.
Hyd yn hyn, Tymor yr Hydref 2022 – Tymor y Gwanwyn 2023, mae 82 achos o fwlio a gadarnhawyd wedi eu hadrodd gan staff ysgol.

Er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad rhywiol niweidiol, rhannwyd y dogfennau, yr adnoddau a'r hyfforddiant canlynol gydag ysgolion:
Adolygiad Estyn “Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon - Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru (Rhagfyr 2021)
“Mae’n effeithio ar bawb – Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr ar 13 (Gorffennaf 2022).
Canllawiau Statudol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) (Chwefror 2022).
https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/designing-your-curriculum/cross-cutting-themes-for-designing-your-curriculum/
Cod Statudol ACRh (Chwefror 2022). - curriculum-for-wales-relationships-sexuality-education-code.pdf (gov.wales)
“Cadw’n Ddiogel Ar lein” Hwb – Cadw’n ddiogel ar lein - Hwb (gov.wales) Mae’r pynciau’n cynnwys: Rhannu delweddau noeth a hanner noeth; Perthnasoedd ar lein; Aflonyddu Rhywiol ar lein; Meithrin Perthynas Amhriodol ar lein.
“Nodi ac ymateb i ymddygiad rhywiol niweidiol” – Sesiwn hyfforddi i ymarferwyr addysg a phecyn, Hwb – Gwent VAWDASV) Cadwrfa - Hwb (gov.wales).

Gwahoddwyd staff yr ysgol i fynychu'r sesiynau hyfforddi canlynol a ddarperir gan elusen iechyd rhywiol Brook: A Whole School Approach to RSE (03.05.2022), Sex, pressures and social networks (23.05.2022), Teaching RSE and sensitive subjects [ee, caniatau, delweddau pornograffig] (07.06.2022) and Sexual behaviours and the Traffic Light Tool (16.06.2022 a 15.11.2022).

**Pa heriau a gafwyd?**

Er gwaethaf y camau uchod, mae'n ymddangos bod staff ysgolion yn amharod i adrodd achosion o fwlio a gadarnhawyd i'r awdurdod lleol.

**Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?**

Creu diffiniad cyffredin o fwlio gyda dysgwyr a staff yr ysgol.
Adolygu a diwygio “Polisi gwrth-fwlio Torfaen a Chanllawiau ar gyfer Lleoliadau Addysg.

| | |
|---|---|
| **Amcan: 2**<br>**Cam: E** | Monitro lefel achosion o gasineb/troseddau casineb yn Nhorfaen drwy’r Hwb Diogelwch Cymunedol. Gweithredu unrhyw gamau angenrheidiol |
| **Swyddog Adrodd:** | Cath Jones |

**Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?**

Ni chafodd unrhyw ddigwyddiadau casineb eu hadrodd i bartneriaid a'u trafod yn y ganolfan. Trafodir troseddau casineb yn y ganolfan yn ystod y sesiwn trafod tasgau a roddir cynlluniau amlasiantaeth ar waith os oes angen.

**Pa heriau a gafwyd?**

Ni adroddwyd yr un.

| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
|---|---|
| Sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau casineb yn cael eu trafod yn y ganolfan a'u cofnodi'n briodol.<br>Parhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi'r rheini sy'n dioddef digwyddiadau casineb. | |
| | |
| **Amcan: 2**<br>**Cam: F** | Darparu hyfforddiant staff sy'n codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, gan rymuso staff i adnabod a delio gyda gwahaniaethu a stereoteipio. |
| **Swyddog Adrodd:** | Sarah Tipping |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Cwblhawyd yn 2021/22. | |
| | |
| **Amcan: 2**<br>**Cam: G** | Gweithio gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i adnabod a delio gyda digwyddiadau. Mae hyn yn cynnwys materion o gam-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn dynion. |
| **Swyddog Adrodd:** | Kate Williams / Amy Thomas (VAWDASV) |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| ▪ Darparu adnodd pwrpasol i weithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar draws yr awdurdod lleol<br>▪ Parhau i fod yn aelod o Grŵp Cyflawni Strategol VAWDASV (sy'n gyrru ymlaen gyda'r dasg o weithredu strategaeth VAWDASV yn rhanbarthol a chenedlaethol)<br>▪ Cefnogi Grŵp Cynllunio Adolygu Lladdiadau Domestig yn rhanbarthol,fel aelod allweddol o'r grŵp, i adolygu, rhannu a lledaenu'r hyn ar ddysgir yn sgil Lladdiadau Domestig<br>▪ Cefnogi effeithiolrwydd prosesau MARAC i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr<br>▪ Cyd-hwyluso Cymunedau Ymarfer ar gyfer ymarferwyr VAWDASV rheng flaen sy'n ymwneud yn benodol â Thai; felly'n cefnogi ymateb gwell a chyfannol i ddioddefwyr a goroeswyr<br>▪ Cydweithio ag arweinwyr strategol ar draws y rhanbarth i gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd y gwasanaeth IDVA rhanbarthol<br>▪ Trefnu ymgyrchoedd ar gyfer Diwrnod Rhuban Gwyn, Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Stelcian a Diwrnod Ymwybyddiaeth Ynghylch Cam-drin Pobl Hŷn<br>▪ Ymgysylltu fel partneriaid allweddol yn is-grwp rhanbarthol Cyfathrebu ac Ymgysylltu VAWDASV, gan godi ymwybyddiaeth ynghylch VAWDASV, casineb at fenywod ac aflonyddu | |
| | |
| **Amcan: 2**<br>**Cam: H** | Gweithio gyda phartneriaid i rwystro a chodi ymwybyddiaeth ynghylch eithafiaeth dreisgar. |
| **Swyddog Adrodd:** | Cath Jones |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Rydym wedi gweithio gydag addysg dros raglen dreigl 2 flynedd i alluogi arweinwyr diogelu i gwblhau'r hyfforddiant sy'n codi ymwybyddiaeth o eithafiaeth dreisgar a sut i gyfeirio pryderon at yr asiantaeth briodol. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |

| |
|---|
| Disgwyl penderfyniad ar yr hyfforddiant gorfodol. Roeddem yn aros am y cyfleuster e-ddysgu newydd gan y Swyddfa Gartref, sydd bellach ar gael ond nid yw'r hyfforddiant wyneb yn wyneb yn barod. |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** |
| Cyflwyno hyfforddiant i'r holl staff sy'n delio a'r cyhoedd, gan ddefnyddio hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb.<br>Parhau i ddatblygu panel y Sianel ac arwain ar Atal dros Went. Gweithredu asesiad risg lleol yn Nhorfaen yn seiliedig ar Broffil Lleol Gwrthderfysgaeth (CTLP) a nodi risgiau posibl gan y Grŵp Parodrwydd ar gyfer Diogelu sydd newydd ei sefydlu. |

| | |
|---|---|
| **Amcan: 2**<br>**Cam: I** | Annog amrywiaeth cymunedol. |
| **Swyddog Adrodd:** | Chris Hunt |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Mae'r timau Diogelwch Cymunedol a Chydlyniant Cymunedol yn parhau i weithio ar brosiectau bach sy'n hyrwyddo cydlyniant cymunedol yn Nhorfaen, gan ymgysylltu â chymunedau lleiafrifol a'u cynnwys wrth ddatblygu mentrau i hyrwyddo cydlyniant cymunedol yn seiliedig ar anghenion y gymuned honno a'r gymuned ehangach.<br><br>Cynhaliodd y Tîm Cydlyniant ddigwyddiad cymdeithasol pellach gyda gwesteion o Wcráin, a ddaeth â dros 150 o westeion (a'r rheini sy'n eu lletya) sydd wedi'u hadsefydlu yn rhanbarth Gorllewin Gwent, at ei gilydd. Roedd cinio a lluniaeth ar gael ochr yn ochr â gweithgareddau i blant; teganau gwynt a cherddoriaeth. Fe wnaeth y cyfan oll sicrhau bod pawb yn cael prynhawn difyr a galluogi i'r gwesteion a'r rheini sy'n cynnig llety iddynt, gyfarfod i rwydweithio, rhannu profiadau a meithrin grwpiau cymorth cymheiriaid, sy'n parhau i atgyfnerthu eu lles.<br><br>Yn ystod Chwarter 4, cynhaliodd y Tîm Cydlyniant ddigwyddiad gofalwyr a chyflogaeth yn Stadiwm Cwmbrân. Fe wnaeth y digwyddiad hwn, a gefnogwyd gan dros 60 o gyflogwyr lleol o bob cwr o Went a rhanbarth De Ddwyrain Cymru, godi ymwybyddiaeth ynghylch swyddi gwag, cyfleoedd gwaith a hyfforddiant sydd ar gael yn yr ardal. Roedd cyfieithwyr wrth law i gynorthwyo gyda'r sgyrsiau â chyflogwyr a'r rheini sydd wedi'u hailsefydlu'n lleol o bob rhan o'r sbectrwm o gynlluniau adsefydlu. Wedi'i hyrwyddo ar draws pob sianel cyfryngau cymdeithasol, atgyfnerthodd y digwyddiad y gwaith yr ydym wedi bod yn ei gyflawni ymhellach o ran cynorthwyo newydd-ddyfodiaid i fod yn fwy annibynnol a ffynnu yn y tymor hwy.<br><br>Mae hyrwyddo dyddiadau cydraddoldeb allweddol yn ystod y cyfnod hwn wedi cynnwys; Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a Mis Hanes Pobl Dduon, mis Hanes LHGT, Wythnos rhyng-ffydd ac Wythnos Ymwybyddiaeth o Ffoaduriaid;<br><br>Mae'r tîm Cydlyniant wedi recordio cyfres o bodlediadau rhanbarthol sy'n rhoi llwyfan i leisiau nad ydynt yn cael eu clywed cymaint, rhannu straeon lleol gan aelodau o'r gymuned leiafrifol o amrywiaeth o gefndiroedd sy'n canolbwyntio ar faterion Traws, cymunedau a ffoaduriaid lleiafrifoedd Du ac Asiaidd.<br><br>Yn ogystal â'r cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, fe wnaeth y Tîm Cydlyniant Cymunedol, mewn partneriaeth â Heddlu Gwent a'r Gwasanaeth Ieuenctid ledled Gorllewin Gwent, gynnal | |

cystadleuaeth poster i blant a phobl ifanc 11 – 25 oed. Dyfarnwyd enillydd gan bob awdurdod lleol a derbyniodd pob enillydd daleb a roddwyd gan Heddlu Gwent.

Mae'r Tîm Cydlyniant wedi cydlynu'r prosiect Troseddau Casineb i Ysgolion ar draws Gorllewin Gwent, ochr yn ochr â chyflwyno ein prosiect Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a gomisiynwyd yn rhanbarthol – Mae'r olaf yn rhoi cyfle ehangach i ystod ehangach o ysgolion yn y rhanbarth – roedd hyn hefyd yn cynnwys hyfforddiant i staff mewn ysgolion.

Datblygodd y Tîm Cydlyniant, mewn cydweithrediad â'r timau Partneriaethau, Polisi a Chydraddoldeb a Datblygu Sefydliadol, fodiwl cydraddoldeb e-ddysgu yn 2021/22. Cafodd hwn ei addasu ar gyfer y rhanbarth ac mae wedi cael ei rannu ar draws y rhanbarth i'w ddefnyddio i hyrwyddo materion a chyfrifoldebau cydraddoldeb yn fewnol.

Rydym hefyd wedi ymgysylltu ag aelodau'r gymuned ac arweinwyr ffydd yn y cyfnod cyn Wythnos Rhyng-ffydd. Yn ystod yr wythnos cynhaliom ddigwyddiad rhyng-ffydd mewn partneriaeth â Heddlu Gwent a ddaeth ag arweinwyr cymunedol at ei gilydd a helpu i hyrwyddo pwysigrwydd ffydd o fewn cymunedau, yn enwedig o ystyried y pandemig. Roedd y digwyddiad hefyd yn helpu i roi llais i grwpiau cymunedol sy'n llai amlwg yn ein cymunedau.

**Pa heriau a gafwyd?**

Mae ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd yn parhau i fod yn her

**Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?**

Parhau i ganolbwyntio ar feithrin cysylltiadau da drwy ddatblygu digwyddiadau i ddod â phobl o bob cymuned at ei gilydd, boed yn rhithiol neu wyneb yn wyneb.

| | |
|---|---|
| **Amcan: 2**<br>**Cam: J** | Monitro tensiynau mewn cymunedau |
| **Swyddog Adrodd:** | Chris Hunt |

**Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?**

Rydym yn parhau i ddeall tensiynau cymunedol parhaus a rhai sy'n dod i'r amlwg ac yn rhoi prosesau a gweithdrefnau ar waith i fynd i'r afael â’r rhain yn ôl yr angen.

Mae’r gwaith i gefnogi monitro tensiynau a rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid yn parhau. Rydym yn cymryd rhan mewn tasg partneriaeth ddwywaith yr wythnos, cyfarfodydd amlasiantaeth, grwpiau CONTEST a Prevent. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyfarfodydd a sefydlwyd gydag Uned Cydlyniant Heddlu Gwent a'n cymheiriaid yn Nwyrain Gwent lle rydym yn cyfnewid gwybodaeth am densiynau yn yr ardal ac ar sail Gwent Gyfan.

Mae cyfarfod Ymateb Wcráin ar wahân yn parhau yn ei le. Mae'r tîm cydlyniant yn bresenoldeb cyson yn y cyfarfodydd hyn, yn darparu briff o gyfranogiad lleol cymunedau yn y Cynllun Cartrefi ar gyfer Wcráin yn ogystal â rhoi trosolwg o unrhyw densiynau cymunedol yr ydym wedi cael gwybod amdanynt.

Mae'r Tîm Cydlyniant hefyd yn mynychu bwrdd rhanbarthol CONTEST, y mae’r rolau allweddol yn y grŵp yn cynnwys;

- Y newyddion diweddaraf am densiynau cydlyniant
- Cwblhau ymarfer i fapio cyfleoedd hyfforddi
- Adrodd yn fisol ar densiynau – a gyflwynwyd gan ddadansoddwr rhanbarthol yr heddlu.

| | |
|---|---|
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Ni adroddwyd unrhyw heriau | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Llunio adroddiadau monitro rheolaidd ar densiynau drwy sianeli y cytunwyd arnynt, yn cynnwys trosolwg misol i Lywodraeth Cymru ac adroddiadau digwyddiadau ad-hoc, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol. Efallai y bydd angen adroddiadau amlach mewn ymateb i faterion neu ddigwyddiadau mawr. | |
| | |
| **Amcan: 2**<br>**Cam: K** | Cysylltu gyda dinasyddion yr UE mewn perthynas â'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS). |
| **Swyddog Adrodd:** | Chris Hunt |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |

Mae'r EUSS wedi cau erbyn hyn

Mae'r Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol (RCCC) wedi darparu briff ar gyfer swyddogion allweddol, yn y cyfnod a arweiniodd at lansio'r cynllun Statws Preswylwyr Sefydlog. Mae mapio'r mewnfudo, sy'n adlewyrchu mewnfudo i bob awdurdod, hefyd wedi cefnogi Awdurdodau Lleol i adeiladu cydnerthedd yn sgil Brexit.
Rydym wedi parhau i flaenoriaethu codi ymwybyddiaeth ynghylch yr EUSS a gweithio gyda phartneriaid fel y CAB, EYST ac awdurdodau lleol, ynghyd â'r Heddlu a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Defnyddio rhwydweithiau lleol, cylchlythyrau i drigolion a'r cyfryngau cymdeithasol i gynyddu ymwybyddiaeth.
Gyda chefnogaeth drwy'r gyllideb Cydlyniant, fe wnaethom hefyd argraffullenyddiaeth EUSS mewn nifer o ieithoedd yr UE a ddosbarthwyd ar draws y rhanbarth i bob adran, ysgol ac adeilad cymunedol.

Rydym ni wedi gweithio gyda llyfrgelloedd a phartneriaid i gynnal sesiynau galw heibio i hybu'r cynllun a defnyddio'r cyllid EUSS a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru i brynu adnoddau copi caled ychwanegol. At hyn, comisiynodd y tîm Cydlyniant hysbyseb radio EUSS ar Capital Radio a ddarlledwyd am 6 mis yn y cyfnod yn arwain at ddyddiad cau'r EUSS. Rydym hefyd wedi sefydlu gwasanaethau 'Rydym yn ddigidol' ym mhob un o fwrdeistrefi gorllewin Gwent, yn golygu bod llyfrgelloedd lleol yn gallu cynorthwyo'r sawl a oedd yn gwneud cais.

Trosolwg o'r cynnydd:

- ymgyrch Facebook drwy Facebook Marketing
- ymgyrch radio ranbarthol (h.y. Capital radio)
- South Wales Argus (hysbyseb yn y papur ac ar y wefan)
- Cylchlythyr i drigolion
- Sesiynau galw heibio rhanbarthol

Er nad oes ymfudiad mawr wedi bod yn rhanbarth gorllewin Gwent, mae effaith bosibl dinasyddion yr UE yn gadael yr ardal wedi ei ystyried yn y fforymau gwytnwch lleol. Fel rhan o'r drafodaeth hon, mapiodd yr RCCC holl ymfudiad economaidd ar draws awdurdodau lleol gorllewin Gwent – gan nodi'r cymunedau lle mae dinasyddion yr UE wedi setlo. Mae hyn wedi cefnogi paratoi'r economi lleol i hybu'r cynllun statws preswylydd sefydlog mewn ardaloedd a oedd yn gweld lefelau uwch o fewnfudo.

| **Pa heriau a gafwyd?** | |
|---|---|
| Profwyd heriau sylweddol o ran mynd i'r afael â chodi ymwybyddiaeth o fewn cymuned fach UE sydd wedi ailgartrefu'n achlysurol ar draws y fwrdeistref. | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Amherthnasol – mae'r EUSS wedi cau erbyn hyn | |
| | |
| **Amcan: 2**<br>**Cam: L** | Parhau gydag ymgysylltiad yr awdurdod lleol gyda Chynllun Adsefydlu'r DU |
| **Swyddog Adrodd:** | Chris Hunt |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |

Mae'r Tîm Cydlyniant yn rheoli'r holl gynlluniau Ailsefydlu ym Mlaenau Gwent a Thorfaen ac mae'r gefnogaeth yn cael ei ymestyn lle bo angen i Gaerffili.

- Mae RCCC yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid tai gyda'r bwriad o gefnogi achosion pellach drwy gynllun ACRS/ARAP yn ystod gweddill 2023, gan anrhydeddu'r addewidion a wnaed yn 2021.
- Rydym wedi gweld nifer yn mynegi diddordeb lleol yn y cynllun Cartrefi i Wcráin, gyda nifer o drigolion lleol yn cynnig llety (ystafelloedd sbâr neu ail gartrefi).
- Mae Awdurdodau Lleol yn parhau i chwarae rhan weithredol wrth gefnogi noddwyr/gwesteiwr a'r rheini sy'n rhoi llety iddynt, gael mynediad at wasanaethau ac integreiddio i'w bywydau newydd yng Nghymru – a reolir ac a gydlynir gan y Tîm Cydlyniant
- Mae argymhellion gan y tîm Cydlyniant bellach ar waith i ddarparu £1,500 o gymorth ariannol ychwanegol i westeion sydd wedi bod yn lletya yn y fwrdeistref ers y cychwyn - i'w cynorthwyo i symud ymlaen i lety yn y Sector Rhentu Preifat (SRhP) (gyda chefnogaeth tariff y Swyddfa Gartref). Yn ogystal, rydym hefyd yn ychwanegu at y taliad 'Diolch' cenedlaethol, i gymell gwesteion i barhau â'u trefniadau cynnal am 24 mis - pecyn cymorth tebyg ar waith mewn awdurdodau cyfagos (gyda chefnogaeth tariff y Swyddfa Gartref).
- Llwyddwyd i symud nifer o deuluoedd ymlaen (o letywyr) i fyw'n annibynnol (o fewn y SRhP), sy'n golygu bod eu llety tymor hwy yn parhau i fod yn ddiogel. Mae cefnogaeth barhaus yn parhau ar waith ar gyfer pob achos arall
- Cynhaliwyd ymgyrch leol gan y tîm Cydlyniant yn ystod Rhagfyr / Ionawr (2022/23) i barhau i godi ymwybyddiaeth ynghylch y cynllun Cartrefi i'r Wcráin ac i geisio eraill i fynegi diddordeb mewn cynnig llety. Yn ogystal â hyn, lansiwyd ymgyrch gan LC (Mawrth 2023). O ganlyniad i'r ymgyrchoedd hyn, rydym wedi derbyn sawl cynnig ychwanegol i fod yn letywyr ac rydym yn bwrw ati i baru lletywyr â phobl sy'n addas (h.y. gyda'r rhai sydd wedi cyrraedd o dan lwybr Uwch-noddwyr LlC).
- Ym mis Mai 2022, cytunodd pob awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru ar Fframwaith Llety Cartrefi i Wcráin. Mae hyn yn nodi sut y bydd pobl o Wcráin, sy'n cyrraedd trwy lwybr Prif Noddwyr Llywodraeth Cymru, sy'n derbyn llety mewn Canolfannau Croeso, yn cael eu gwasgaru ledled Cymru. Rydym yn parhau i archwilio mwy o gynigion i gynnig llety yn y fwrdeistref ac rydym wedi ymgysylltu â nifer o landlordiaid sector preifat i gwblhau'r disgwyliadau o ran cyfran y boblogaeth.
- Ers cyflwyno'r model gwasgaru llawn, rydym bellach yn gweld eiddo'n dod yn weithredol a chyn bo hir byddwn yn croesawu ceiswyr lloches i Fwrdeistref Torfaen

| | |
|---|---|
| • Drwy'r gyfran o'r boblogaeth (*yn debyg i gyfran disgwyliad Cartrefi Uwch-noddwyr ar gyfer Wcráin*) bydd disgwyl i bob awdurdod lleol gefnogi 'rhif targed' o welyau sydd newydd gael eu creu<br>• Mae cyllid LlyDU ar gael ar gyfer unrhyw leoedd gwely CLl sydd newydd eu sefydlu a'u llenwi - £3500 fesul lle gwely (taliad untro) ar gyfer yr awdurdod lleol – Mae'r Tîm Cydlyniant yn cefnogi'r ALl o ran y ffordd fwyaf addas i ddefnyddio'r cyllid hwn i gefnogi newydd-ddyfodiaid a chynyddu'r gallu yn lleol o fewn y gwasanaethau (hy addysg a chymorth iaith) a fydd yn helpu yn y tymor hwy<br>• Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn trafodaethau gyda CRH a'n partneriaid i sicrhau bod yr holl gefnogaeth briodol - i'r rhai sydd wedi cael eu derbyn yn y fwrdeistref a chynlluniau ar gyfer eraill yn y dyfodol, ar waith.<br>• Mae'r tîm Cydlyniant yn cydlynu'r gwaith o gyflawni'r cynllun Gwasgaru Ceiswyr Lloches yn Nhorfaen a Blaenau Gwent. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Y broblem fwyaf o hyd yw fforddiadwyedd a'r llety sydd ar gael o fewn y sectorau tai preifat a chymdeithasol | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Parhau i gefnogi'r holl raglenni adsefydlu a symud ymlaen â lletyau i bob achos lleol o dan Cartrefi ar gyfer Wcrain. | |
| | |
| **Amcan: 2**<br>**Cam: M** | Ymgymryd ag Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr. |
| **Swyddog Adrodd:** | Adrian Wilcock |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Ni wnaed unrhyw gynnydd | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Drafft o Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Torfaen 2020-2025 sydd hefyd yn ymdrin ag anghenion llety hyd at 2033 (i gyd-fynd â chyfnod Cynllun CDLl Torfaen) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru (LlC) ym mis Chwefror 2020 ond sydd heb ei gymeradwyo eto gan Weinidog Cymru (y deallir ei fod oherwydd materion staffio LlC) - ond gweler y nodyn isod. | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| O ystyried bod y Cyngor/Gweinidog Cymru wedi cymeradwyo tynnu CDLlN Torfaen (2018-2033) yn ôl ym mis Ebrill/Mai 2023, bydd angen llunio ALlSTh newydd i Dorfaen 2023-28 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i gwmpasu cyfnod cynllun newydd CDLlN Torfaen am 15 mlynedd hyd at 2037. | |

| **Amcan 3**<br>*Gweithio i ddileu anfanteision a rhwystrau sy'n ei gwneud yn anodd i bobl gael yr un cyfleoedd â phawb arall* | |
|---|---|
| **Amcan: 3**<br>**Cam: A** | Gwella amgylchedd adeiledig cymunedol Torfaen a hygyrchedd ehangach adeiladau cyhoeddus y Cyngor a mannau gwaith mewn modd fforddiadwy. |
| **Swyddog Adrodd:** | Paul Evans |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Rydym yn cyflawni rhaglen barhaus i wella adeiladau ledled y fwrdeistref h.y. y Ganolfan Ddinesig, Tŷ Blaen, llyfrgelloedd cyhoeddus, ysgolion a Marchnad Pont-y-pŵl ac ati yn hygyrch i | |

| | |
|---|---|
| bawb. Gyda chymorth gan reolwyr cyfleusterau, y tîm cynnal a chadw, goruchwylwyr ysgol/safle rydym wedi ymgymryd a nifer o gamau i sicrhau nad oes rhwystrau i wasanaethau ac adeiladau. Cynnal a chadw toiledau hygyrch, ail-farcio mannau parcio ceir sydd ynghlwm wrth yr adeiladau. Mae enghreifftiau o waith o'r fath yn cynnwys cynnal toiledau hygyrch, ail-farcio mannau ceir hygyrch sydd ynghlwm wrth adeiladau ac ati. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Her o ran adnoddau annigonol, cyfyngiadau ariannol a staffio. | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Cynnal y safon uchel a gyflawnwyd eisoes. | |
| | |
| **Amcan: 3**<br>**Cam: B** | Parhau gyda’r broses flaenoriaethu er mwyn cael gwelliannau o fewn yr adnoddau sydd ar gael a bod y gwelliannau yn cael eu targedu er mwyn rhoi’r budd mwyaf i’r gymuned a manteision cynhwysol. |
| **Swyddog Adrodd:** | Paul Evans |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Adolygir ac ailedrychir ar flaenoriaethau cynnal a chadw / gwella eiddo ar draws ystâd gyfan y Cyngor o leiaf bob blwyddyn. Mae ein [proses flaenoriaeth yn cynnwys sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad oes rhwystrau i ddefnyddio ein cyfleusterau a bydd hyn yn cael ei flaenoriaethu os yw’r adnoddau ar gael. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Her o ran adnoddau annigonol, cyfyngiadau ariannol a staffio | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Parhau â'r gwaith sydd ei angen i gwblhau arolwg hygyrchedd ar gyfer adeiladau cyhoeddus ac adeiladau’r Cyngor nad ydynt yn rhai addysg. Ymgymerwyd â gwaith i ystyried gofynion y Ddeddf Gwahaniaeth ar Sail Anabledd (DDA) posibl mewn ysgolion. | |
| | |
| **Amcan: 3**<br>**Cam: C** | Parhau gyda’r broses flaenoriaethu i weithredu a delio gyda phroblemau hygyrchedd o fewn rhaglen adnewyddu a thrwsio’r Cyngor. |
| **Swyddog Adrodd:** | Paul Evans |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Trwy gefnogaeth gan yr adran Reoli Cyfleusterau, y tîm Cynnal a Chadw Eiddo a goruchwylwyr ysgolion/safle, mae rhaglen adnewyddu ac atgyweirio'r Cyngor yn helpu i gael gwared ar rwystrau i wasanaethau ac adeiladau. Lle bo'n bosibl, mae ein gwaith cynnal a chadw arfaethedig yn sicrhau bod adeiladau yn hygyrch, fel sicrhau bod drysau ddigon llydan, lliwiau gwahanol mewn cynlluniau ailaddurno, gwasanaethu a chynnal lifftiau. Dolennau sain, drysau awtomatig ac arwyddion canfod ffordd ac ati. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Her adnoddau annigonol, cyfyngiadau ariannol a staffio | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Cynnal y safon uchel a gyflawnwyd eisoes. | |
| | |
| **Amcan: 3**<br>**Cam: D** | Parhau i weithredu nifer o gynlluniau. Yn nodweddiadol bydd y rhain yn cynnwys symud ymaith rwystrau ffisegol i adeiladau ar draws asedau adeiladau’r Cyngor. Hefyd yn berthnasol i leoliadau cymunedol sy’n effeithio |

| | |
|---|---|
| | symudedd a mynediad pobl anabl ar ffyrdd cyhoeddus a llwybrau cyhoeddus, er enghraifft, cyflwyno cyrbau isel gan ddefnyddio arian cyfalaf y Cyngor ei hun a thrwy gyfrwng ffynonellau ariannu eraill ar gyfer cynlluniau, gan gynnwys Llwybrau Diogel yn y Gymuned. |
| **Swyddogion Adrodd:** | Donna Edwards-John/Pat Bates/Mark Panniers/Paul Evans |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |

**Mae cyrbau amrywiol wedi cael ei gostwng** felly'n gwneud y rhwydwaith yn fwy hygyrch drwy Gyllid Teithio Llesol. Dewiswyd y lleoliadau drwy asesiad yn blaenoriaethu Teithio Llesol. Gostyngwyd cyrbau hefyd yn rhan o gyllideb Cyfalaf CBST mewn ymateb i ymholiadau penodol a dderbyniwyd ac a aseswyd yn unigol.

**Llwybr newydd a rennir i YGG Llantarnam** sy'n gwbl hygyrch gafodd ei greu drwy Gyllid Teithio Llesol a LlDmC ac rydym wedi derbyn adborth gan rieni yn nodi bod y siwrnai i'r ysgol erbyn hyn yn haws o lawer i blant ag anableddau corfforol ac anableddau cudd.

**Y Briffordd, Croesyceiliog** gwelwyd gwelliannau sylweddol o ran hygyrchedd, a hynny ar ffurf cyrbau isel, ailbroffilio cyffyrdd er mwyn croesi'n hawdd; codwyd bolardiau i atal rhwystro mynediad rhag ceir wedi parcio o lwybrau cyfagos i'r prif lwybr. Helpodd Fforwm Mynediad Torfaen (TAF) i lunio'r cynllun drwy'r broses ymgynghori gan dynnu sylw at ble oedd angen gwelliannau drwy Gyllid Teithio Llesol.

**Edlogan Way, Croesyceiliog**. Roedd y cynllun cyd-ddefnyddio yn cynnwys gostwng cyrbau, lledaenu llwybrau a gwella hygyrchedd i fannau croesi, arwyddion a safleoedd bws. Canfuwyd ar ôl ymgynghori, bod angen seddi ychwanegol i ddefnyddwyr nad oedd yn gallu symud cystal, ac ychwanegwyd y rhain drwy Gyllid Teithio Llesol.

**Cwmbran Drive** - cynllun cyd-ddefnyddio, yn cynnwys lledaenu'r llwybr, gostwng cyrbau a gwella arwyddion drwy Gyllid Teithio Llesol.

**Tynnu/Addasu Rhwystrau**. Cafodd rhwystrau eu haddasu ar ôl derbyn adborth gan drigolion yn y lleoliadau canlynol:

- Pentre Lane – Camlas Mynwy ac Aberhonddu ochr Casnewydd, addasu Ffrâm A hyd ei eithaf i ganiatáu mynediad.
- Mae aelod ward wedi nodi dau rwystr Ffrâm A ym Mlaenafon, ar hyn o bryd maent yn cael eu haddasu i'r eithaf er mwyn caniatáu mynediad.
- Mae trigolyn wedi nodi dau rhwystr yng Ngwarchodfa Natur Leol Henllys sydd yn achosi problemau a byddant yn cael eu haddasu i greu giât symudedd ag Allwedd Radar i ganiatáu mynediad.
- Bydd y llwybr beicio yn destun archwiliad o ran y rhwystrau sydd ar waith a bydd angen iddo fod yn destun ymgynghoriad i newid/dileu unrhyw rwystrau.

Mae'r Tîm Teithio Llesol yn mynychu Fforwm Mynediad Torfaen (TAF) yn aml i glywed yr adborth ar lwybrau a chynnal cyfarfodydd ar y safleoedd i gerdded ar hyd y llwybrau pan ddaw cais i law i ystyried unrhyw broblemau. Mae'n rhan bwysig o deithio llesol i ymgynghori â phob gallu i annog teithio llesol cwbl gynhwysol.

| | |
|---|---|
| **Amcan: 3**<br>**Cam: E** | Drwy welliannau hygyrchedd ffisegol adeiladau i'r broses reoli stadau safonol. |
| **Swyddog Adrodd:** | Paul Evans |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Mae gwaith wedi ei wneud mewn 12 o ysgolion:<br>• Treftadaeth Blaenafon – Canllawiau, gwaith ffensio<br>• Ysgol Gynradd New Inn – Gwaith i gynorthwyo pobl â nam ar y golwg<br>• Ysgol Gynradd Garnteg – Creu rampiau newydd i ddosbarthiadau, canllawiau, gwaith i gynorthwyo nam ar eu golwg<br>• George Street – Darparu lifft grisiau Baronmead<br>• Ysgol Gynradd Griffithstown – Creu mannau diogel (hygyrch), yn cynnwys gwaith ffensio<br>• Ysgol Gynradd Maendy – Gwaith i gynorthwyo pobl â nam ar y golwg<br>• Ein Harglwyddes a'r Angylion - Creu rampiau newydd i ddosbarthiadau, canllawiau<br>• Ysgol Gynradd Pontnewydd – Gwaith i'r Ganolfan Adnoddau Anghenion Arbennig, creu arwyneb diogel, gwneud y wal allanol yn ddiogel<br>• Sant Alban – Gwaith i gynorthwyo pobl â nam ar y golwg<br>• Dewi Sant – Creu ramp a man chwarae gwastad sy'n addas i gadeiriau olwyn<br>• Ysgol Gyfun Gwynllyw – Gwaith i gynorthwyo pobl a nam ar y golwg<br>• Ysgol Panteg – Gwaith i gynorthwyo pobl â nam ar y golwg | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Yr amserlen wrth weithio yn ystod gwyliau'r ysgol. | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Darparu rhaglen arall o welliannau o ran hygyrchedd ar draws adeiladau/safleoedd y Cyngor fel rhan o'r rhaglen /rhaglenni gwaith Rheoli Eiddo 23/24, gynnwys gwaith y DdGSA â blaenoriaeth a gynlluniwyd ar gyfer ysgolion. | |

| | |
|---|---|
| **Amcan: 3**<br>**Cam: F** | Monitro pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET), neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET, a darparu rhaglenni cymorth i helpu unigolion sicrhau gwaith, addysg neu hyfforddiant |
| **Swyddog Adrodd:** | Gareth Jones |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Rydym wedi lleihau'r niferoedd NEET ar gyfer 2022/3 a nifer y bobl ifanc anhysbys sy'n gadael blwyddyn 11. Rydym wedi parhau i reoli proses i gysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion a phartneriaid eraill i dargedu'r rhai sy'n wynebu'r perygl fwyaf o ddod yn NEET. Rydym wedi denu darparwr dysgu seiliedig ar waith, newydd, i dargedu a gweithio gyda phobl ifanc yn bennaf yng Ngogledd Torfaen. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Roedd rhai cysylltiadau â'r ysgol yn amrywiol. Mae niferoedd y bobl ifanc nad ydynt yn mynychu'r ysgol wedi cynyddu'n sylweddol neu nid ydynt wedi dychwelyd ers materion firws COVID. Roedd cyllid ar gyfer rhai prosiectau oedd yn targedu'r rhai sy'n NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET yn ansicr, am fod prosiectau a ariannwyd gan gronfa ESF wedi dod i ben, ond mae hynny bellach wedi parhau gyda chyllid SPF ychwanegol. | |

| | |
|---|---|
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Lleihau nifer y bobl ifanc NEET a phobl ifanc anhysbys yn Nhorfaen. Sefydlu system fwy effeithiol o ysgolion a darparwyr dysgu ôl 16 sy'n gweithio ar y cyd i dargedu'r rhai sy'n wynebu'r perygl fwyaf o fod yn NEET. Cynyddu nifer y cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith sydd ar gael i bobl ifanc 16 oed yn Nhorfaen | |
| | |
| **Amcan: 3**<br>**Cam: G** | Cyflwyno ymyraethau datblygu economaidd ac adfywio gyda ffocws ar greu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd i drigolion iau a'n cymunedau mwyaf difreintiedig. |
| **Swyddog Adrodd:** | David Leech |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Roedd y Cyngor yn llwyddiannus yn ei gais am gyllid gan y Gronfa Ffyniant Bro gan Lywodraeth y DU. Llwyddodd i sicrhau'r swm o £7.6M ar gyfer 3 phrosiect adfywio yng Nghanol Tref Pont-y-pŵl. Bydd y rhain yn cael eu cynllunio yn 2023/24 a'u cyflwyno yn 2024/25. Mae'r Cyngor hefyd wedi parhau i gyflawni rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, gyda grant o £2.5M i gefnogi adfywiad sylweddol yn Sgwâr Gwent, Cwmbrân a gyda datblygiad sawl prosiect llai yng Nghanol Tref Blaenafon a Phont-y-pŵl drwy'r Rhaglen Creu Lleoedd. Mae pob un o'r prosiectau hyn yn arwain at gyfleoedd cyflogaeth newydd (bwyd a diod, hamdden, adeiladu, diwylliant).<br><br>Mae'r prosiectau hyn i gyd yn cyflawni'r hyn sydd yn ein Cynlluniau Creu Lleoedd a wnaeth nodi blaenoriaethau a heriau trigolion iau ym mhob un o'r 3 tref.<br><br>Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi dyrannu Cyllid Ffyniant Gyffredin i barhau i ddarparu rhaglen gyflogadwyedd a rhaglen NEET. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Mae goblygiadau ariannol yr argyfwng costau byw a phandemig Covid wedi parhau i effeithio ar allu'r rheini sy'n berchen ar eiddo i fuddsoddi mewn cynlluniau adfywio.<br><br>Mae anweithgarwch economaidd yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gyda chynnydd yn nifer y trigolion hŷn sy'n gadael y farchnad lafur a chynnydd mewn salwch hirdymor yn dilyn y pandemig. | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Cyflawni'r prosiectau i ariannu Trawsnewid Trefi a Ffyniant Bro a gymeradwywyd. | |
| | |
| **Amcan: 3**<br>**Cam: H** | Cyflenwi gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr sy'n cynyddu gallu pobl ifanc i gael hyd i ddeunyddiau dysgu o ansawdd, sy'n cefnogi'r mwyaf agored i niwed i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, a chynorthwyo pobl ifanc agored i niwed sy'n chwilio am waith i gael cyfleoedd ar-lein a datblygu sgiliau a chyfleoedd gwaith. |
| **Swyddog Adrodd:** | David Leech |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Mae nifer y llyfrau sy'n cael eu benthyg yn y gwasanaeth llyfrgell wedi cynyddu yn dilyn gostyngiad sylweddol yn ystod y pandemig. Yn ogystal, mae gweithgareddau i deuluoedd a phlant yn parhau i fod yn ffocws gyda sesiynau stori a chrefft ac amser rhigwm i fabanod yn parhau i fynd o nerth i nerth. | |

| |
|---|
| Mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi cynnal ei gefnogaeth i geiswyr gwaith gyda sesiynau mynediad cyfrifiadurol a sgiliau TG, ac mae'r rhain bellach yn eu hanterth unwaith eto yn dilyn y pandemig.<br><br>Yn ogystal, cynhaliodd llyfrgell Cwmbrân gynllun peilot 'Hwb Cyflogadwyedd' yn 2021/22. Mae'r prosiect hwn – a ariennir gan y Gronfa Adfywio Cymunedol –wedi arwain at ehangu'r hwb i uned yn y dref. Mae 'r hwb yn darparu cefnogaeth a chyngor ar gyflogadwyedd i gwsmeriaid |
| **Pa heriau a gafwyd?** |
| Rhaid aros i weld a fydd y gostyngiad yn y nifer sy'n benthyg o'r llyfrgelloedd yn dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Mae'r cynnydd sylweddol mewn materion digidol yn awgrymu bod rhai cwsmeriaid yn ymgysylltu â'r gwasanaeth llyfrgell mewn ffordd wahanol. |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** |
| Atgyfnerthu'r cysylltiadau ymhellach rhwng y gwasanaeth llyfrgell a swyddogaethau gofal cwsmeriaid<br><br>Atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y gwasanaeth llyfrgell a'r hyn a ddarperir yn ehangach gan y cyngor o ran cyflogadwyedd |

| | |
|---|---|
| **Amcan: 3**<br>**Cam: I** | Cefnogi, amddiffyn a galluogi pobl sy'n agored i niwed i gael canlyniadau positif a lles. |
| **Swyddog Adrodd:** | Sarah Paxton |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Parhau i ganolbwyntio ar 'Beth sy'n Bwysig' sy'n galluogi pobl drwy sgyrsiau cydweithredol i nodi canlyniadau personol. Gweithio'n agos gyda'r adran gymunedau i ystyried atal ac ymyrraeth gynnar ar draws y system gyfan i alluogi pobl i ddefnyddio'u hierarchaeth o gymorth i ganfod eu hatebion eu hunain. Agorwyd ein hwb ailalluogi yn Nhŷ Glas y Dorlan, ac mae bellach wedi cynnig cyfleoedd ailalluogi, seibiant a gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn partneriaeth â rhanddeiliaid | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Mae pwysau o ran y gweithlu, yn enwedig yn y farchnad gofal cartref, wedi golygu bod oedi wedi bod ar adegau o ran gallu darparu gofal a chymorth o'r rhan gywir o'r system ac mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau a dewis. | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Fel rhan o gynllun y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig rydym yn bwriadu cynyddu'r ffocws ar ail-alluogi ar draws y system gyfan i ddatblygu system ail-alluogi integredig a fydd yn hyrwyddo annibyniaeth, cynhwysiant cymdeithasol a chymryd risg mewn modd cadarnhaol.<br>Mae Gwasanaethau Oedolion wedi (Ebrill 2023) ymuno â'r adran gymunedau ac rydym yn cyfrannu at y strategaeth cymunedau, ac atal ac ymyrraeth gynnar.<br>yn ceisio ailgynllunio'r drws ffrynt Gofal Cymdeithasol i Oedolion gan wella mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth. | |

| | |
|---|---|
| **Amcan: 3**<br>**Cam: J** | Hyrwyddo materion amddiffyn a chysylltu'n ehangach gyda phlant anabl a rhai sy'n agored i niwed. |
| **Swyddog Adrodd:** | Claire Worlock |

| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
|---|---|
| Un plentyn sydd wedi cofrestru gyda'r tîm Plant Anabl ar Gofrestr Amddiffyn Plant Torfaen. Mae hyn yn adlewyrchiad cadarnhaol o'r gefnogaeth amlasiantaethol sy'n seiliedig ar gryfderau a ddarperir i blant anabl a'u teuluoedd. T Mae'r tîm yn rhagweithiol wrth nodi a mynd i'r afael ag angen drwy fynediad at ystod eang o wasanaethau. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymateb i risg a rheoli risg mewn modd rhagweithiol, ac yn atal pryderon ynghylch diogelu rhag dwysau. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Mae adnoddau cyfyngedig o ran gwasanaethau cymorth wedi bod yn rhwystr sylweddol i ddiwallu anghenion.<br><br>Mae recriwtio ymarferwyr gwaith cymdeithasol profiadol wedi arwain at brinder staff ac effaith ar y gallu i ddarparu gwasanaethau.<br><br>Mae gweithio'n effeithiol mewn dull amlasiantaeth gydag asiantaethau sy'n bartneriaid wedi achosi problemau o ran cymryd cyfrifoldeb am anghenion risg uchel, penodol Beth yw anghenion gofal cymdeithasol / beth yw anghenion iechyd? Mae hyn wedi arwain at rwystrau i ddarparu taliadau uniongyrchol a mynediad at gymorth priodol.<br><br>Mae recriwtio Cynorthwywyr Personol Taliadau Uniongyrchol wedi bod yn broblem ac wedi cael effaith ar y gwasanaethau a ddarperir. | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Recriwtio tîm gwaith cymdeithasol sefydlog.<br><br>Datblygu gwaith partneriaeth fwy effeithiol gydag asiantaethau sy'n bartneriaid sydd â rolau a chyfrifoldebau y cytunwyd arnynt.<br><br>Cynorthwywyr Personol i ddiwallu anghenion a ganfuwyd. | |
| | |
| **Amcan: 3**<br>**Cam: K** | Integreiddio ystyriaeth o'r ddyletswydd cymdeithasol-economaidd o fewn prosesau cymryd penderfyniadau. |
| **Swyddog Adrodd:** | Sarah Tipping |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Cwblhawyd. | |
| | |
| **Amcan: 3**<br>**Cam: L** | Lleihau anfantais economaidd a thlodi a wynebir gan y sawl gyda nodweddion gwarchodedig penodol (e.e. anabledd, oedran) o ganlyniad i ostyngiad mewn mynediad i'r cyfle i gael gwaith a chymorth lles annigonol. |
| **Swyddog Adrodd:** | David Leech |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Mae'r Grŵp Prosiect Diwygio Lles wedi cael ffocws newydd cryf o ran Cydnerthedd Cymunedol gydag ymrwymiad o'r newydd gan holl bartneriaid y prosiect. | |

| |
|---|
| Yn ystod 2022/23 mae'r grŵp wedi cwblhau ei gylch gorchwyl, wedi nodi gwytnwch ariannol, digartrefedd, ansicrwydd ynni ac ansicrwydd bwyd fel ei brif flaenoriaethau ac wedi paratoi cynllun gweithredu i gyflawni.<br><br>Yn ystod 2022/23 darparodd y Cyngor dros £800,000 o gymorth costau byw i drigolion sydd mewn perygl. Targedwyd y gefnogaeth at grwpiau blaenoriaeth gan gynnwys y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a thrigolion hŷn sy'n derbyn prydau cymunedol. |
| **Pa heriau a gafwyd?** |
| Mae'r argyfwng costau byw wedi cael effaith ar drigolion yn Nhorfaen gyda chynnydd mewn dyled yn cael ei adrodd a phwysau cynyddol o ran costau ynni a bwyd. |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** |
| • Mabwysiadu'r Strategaeth Lles Cymunedol<br>• Cofrestru 700 o drigolion eraill ar ein rhaglenni cymorth cyflogadwyedd sy'n darparu 271 o gymwysterau<br>• Sicrhau 383 o geisiadau am swyddi o'n rhaglenni Cymunedau am Waith a Chronfa Ffyniant Gyffredin sy'n canolbwyntio ar y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Nhorfaen.<br>• Sicrhau bod 125 o’n pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET yn ennill cymwysterau; a lleihau’r perygl i 120 o bobl ifanc ddod yn NEET. |

| | |
|---|---|
| **Amcan: 3**<br>**Cam: M** | Cynorthwyo unigolion sy’n wynebu caledi i gael budd-daliadau priodol a sicrhau incwm gyda’r nod i’w galluogi i gynnal llety. |
| **Swyddog Adrodd:** | Lesley Groves |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Mae gan y Gwasanaeth Tai Dîm Cynhwysiant Ariannol pwrpasol sy'n rhoi cyngor a chymorth i aelwydydd sydd mewn trafferthion ariannol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ei chael hi'n anodd rheoli'r costau sy'n gysylltiedig â'u cartref presennol. Yn ystod 2022/23 cefnogodd y Tîm Cynhwysiant Ariannol 89 o gleientiaid (dechreuodd 50 o'r rhain gael cefnogaeth yn ystod 2022/23).<br><br>Yn 2022/23 fe wnaeth y Tîm Cynhwysiant Ariannol godi/arbed £86,633.76 i’w cleientiaid drwy hawlio budd-daliadau, ceisiadau grant, lleihau gwariant ac ati. Fe wnaeth y Tîm atal 19 achos rhag dod yn ddigartref o ganlyniad i'w ymyrraeth. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Mae costau byw cynyddol yn profi i fod yn her wirioneddol i lawer o bobl sy'n ei chael hi'n fwy a mwy anodd talu'r costau sylfaenol sy'n gysylltiedig â chynnal cartref.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn parhau i dderbyn nifer uchel o atgyfeiriadau ond nid yw nifer sylweddol o'r rhain yn derbyn y cynnig o gymorth. | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Parhau i weithio gyda chleientiaid i wneud y mwyaf o'u hincwm, cael mynediad at y grantiau sydd ar gael a'u cefnogi i gyllidebu’n fwy hylaw i'w galluogi i gynnal eu llety ac atal y posibilrwydd o ddigartrefedd.<br><br>Parhau i archwilio ffynonellau grant/cyllido newydd i gefnogi ein cleientiaid. | |

| | |
|---|---|
| Ymgysylltu â'r Porth Cymorth Tai a'r Tîm Comisiynu i barhau i wella'r broses atgyfeirio i leihau nifer y cleientiaid sy'n methu â manteisio ar wasanaethau cymorth.<br><br>Cynnal perthynas waith gadarnhaol gyda chymdeithasau tai lleol i sicrhau y derbynnir atgyfeiriadau mewn modd amserol a bod tenantiaid/deiliaid contractau yn cael y gefnogaeth ar yr adeg gynharaf i atal ôl-ddyledion rhag cynyddu ac arwain at droi allan o'u cartrefi. | |
| | |
| **Amcan: 3<br>Cam: N** | Cynorthwyo unigolion i gael llety fforddiadwy, addas yn seiliedig ar eu hanghenion a'u gofynion. |
| **Swyddog Adrodd:** | Lesley Groves |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Yn 2022/23 fe wnaeth Tîm Homeseeker brosesu 1,460 o geisiadau i ymuno â'r gofrestr tai. Cawsant eu hasesu'n ofalus a'u blaenoriaethu yn ôl eu hanghenion.<br><br>Yn ystod y cyfnod hwnnw fe wnaeth 542 o aelwydydd dderbyn llety gan un o'n Cymdeithasau Tai sy'n bartneriaid. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Rydym yn gweld gostyngiad yn nifer yr eiddo sydd ar gael drwy ein partneriaid Tai Cymdeithasol, sy'n arwain at gynnydd yn yr amseroedd aros i bobl sy'n chwilio am gartrefi.<br><br>Mae mwy o ddibyniaeth ar y sector rhentu cymdeithasol oherwydd yr anawsterau cynyddol y mae pobl yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i opsiynau fforddiadwy mewn mannau eraill yn y farchnad dai (oherwydd costau cynyddol prynu a rhentu cartref). | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Gweithio gyda'n partneriaid yn Homeseeker i sicrhau ein bod yn parhau i ddefnyddio'r adnoddau cyfyngedig sydd gennym o ran y stoc tai cymdeithasol, a hynny yn y ffordd orau i helpu'r rhai sydd fwyaf anghenus.<br><br>Parhau i weithio gyda phartneriaid sy'n datblygu i gyflwyno'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol. Bydd eiddo'n cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion yr asesiad presennol o'r farchnad dai leol. Rhoddir ystyriaeth i gynnwys llety sydd wedi ei addasu/llety â chymorth a llety a rennir | |
| | |
| **Amcan: 3<br>Cam: O** | Sicrhau bod unigolion sy'n wynebu digartrefedd yn cael cymorth a help i rwystro digartrefedd lle bo modd yn ymarferol. |
| **Swyddog Adrodd:** | Lesley Groves |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Fe wnaeth yr adran Tai parhau i dderbyn nifer uchel o gyflwyniadau gan aelwydydd a oedd dan fygythiad digartrefedd. Yn 2022/23 cynorthwywyd 981 o aelwydydd. Cynigiodd y tîm Datrysiadau Tai gyngor a chymorth i atal digartrefedd gymaint â phosibl ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld nifer uchel o landlordiaid preifat yn tynnu'n ôl o'r sector rhentu, a arweiniodd at ddiffyg tenantiaethau. Achosodd y cynnydd uchel yn nifer y cyflwyniadau, bwysau ar adnoddau sydd eisoes yn gyfyngedig, sef llety dros dro a'r dewis o lety parhaol | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |

Yr her fwyaf arwyddocaol fu cyflwyno'r Ddeddf Rhentu Cartrefi ym mis Rhagfyr 2022. Yn dilyn hyn, gwelwyd lawer o landlordiaid sector preifat yn tynnu'u heiddo oddi ar y farchnad rhentu neu gynyddu'r rhent i lefelau nad oeddent yn gynaliadwy i lawer o deuluoedd.
Ynghyd â hyn mae Torfaen wedi gweld cynnydd yn nifer y rhai sy'n gadael y carchar yn datgan eu bod yn ddigartref. Yn aml, gyda'r garfan hon o unigolion, mae dod o hyd i lety addas yn y lleoliad cywir, yn gallu bod yn anodd, felly'n arwain at dreulio cyfnodau hirach mewn llety dros dro.
Mae'r sector rhentu preifat bellach yn anhygyrch i lawer o bobl/teuluoedd yn Nhorfaen sy'n creu hyd yn oed mwy o bwysau ar restrau aros am dai cymdeithasol.
Oherwydd y pwysau cynyddol ar dai cymdeithasol a'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n cael eu hysbysebu, mae hyn wedi atal pobl/teuluoedd rhag symud i mewn i eiddo parhaol a threulio cyfnodau hirach mewn cartrefi dros dro.
Mae'r Ddeddf Rhentu Tai hefyd wedi effeithio ar y cyflenwad o lety dros dro (cynllun prydlesu'r sector preifat) am fod nifer o landlordiaid wedi tynnu eu heiddo yn ôl o'r cynllun, felly diflannodd tua 50% o'r portffolio yn 2022/23

**Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?**

- Datblygu a chyflwyno cynlluniau ailgartrefu cyflym Llywodraeth Cymru
- Parhau i gynnig cyngor a chefnogaeth i bob cartref sydd dan fygythiad o ddigartrefedd.
- Gweithio gydag LCC a landlordiaid preifat i gynyddu'r cyflenwad o lety dros dro.
- Gweithio'n agos gyda landlordiaid preifat i gynyddu cyfleoedd i bobl/teuluoedd ar incymau is gael mynediad i'r sector rhentu preifat
- Gweithio'n agos gydag LCC i sicrhau bod tai cymdeithasol gwag yn cael eu prosesu a'u bod ar gael mewn modd amserol

| | |
|---|---|
| **Amcan: 3**<br>**Cam: P** | Sicrhau bod y sawl sydd angen llety hygyrch yn cael cymorth i gael llety sy'n addas iddyn nhw. |
| **Swyddog Adrodd:** | Lesley Groves |

**Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?**

Ar 17 Ebrill 2023 roedd 272 o geisiadau'n fyw ar y gofrestr i bobl a oedd wedi derbyn asesiad ac angen llety wedi ei addasu/hygyrch. Mae Tîm Homeseeker yn parhau i weithio'n agos gyda Therapyddion Galwedigaethol yn y maes Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod anghenion y bobl yn Nhorfaen yn cael eu hasesu'n briodol er mwyn deall eu hanghenion. Mae 86% o'r 272 o geisiadau uchod naill ai wedi cael eu hasesu gan ThG neu maen nhw'n disgwyl asesiad yn dilyn atgyfeiriad (75% ar yr un adeg y llynedd).

Yn 2022/23, yn dilyn asesiad, cafwyd bod 125 o ymgeiswyr angen eiddo hygyrch/wedi ei addasu a'u hailgartrefu drwy gofrestr Homeseeker.

Yn 2022/23, hysbysebwyd 73 eiddo gan ein Cymdeithasau Tai sy'n bartneriaid a roddwyd blaenoriaeth benodol i ymgeiswyr sydd angen cartrefi hygyrch/wedi eu haddasu.

**Pa heriau a gafwyd?**

Yn yr un mod â'r ddarpariaeth dai yn ehangach, rydym wedi gweld gostyngiad yn y nifer o dau sydd ar gael i ymgeiswyr yn y garfan hon, sydd angen cartref newydd.

Yn ogystal â'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd i'r garfan hon o ran cael mynediad i lety yn y sector rhentu preifat, mae landlordiaid preifat yn aml yn amharod i ganiatáu

| | |
|---|---|
| addasiadau i'w heiddo drwy'r broses GCA gan greu dibyniaeth bellach ar sector rhent cymdeithasol cyfyngedig. | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Parhau i wella'r data a gedwir i ddeall anghenion trigolion sydd angen eu hailgartrefu, i ddatblygu strategaeth/polisi ehangach.<br><br>Parhau i weithio gyda phartneriaid LCC i sicrhau bod eiddo sy'n elwa o addasiadau/ nodweddion penodol sy'n addas i bobl ag anghenion symudedd yn cael eu defnyddio i ddiwallu'r rhai sydd ag angen cymwys, er enghraifft dyrannu cartrefi sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn i'r rhai sydd angen eiddo sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. | |
| | |
| **Amcan: 3**<br>**Cam: Q** | Ceisio darparu canlyniadau positif i bobl sy’n cysgu allan wrth ddelio gyda’u hanghenion llety, cymorth, cymdeithasol ac iechyd. |
| **Swyddog Adrodd:** | Lesley Groves |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Dim cynnydd i’w adrodd. | |
| | |
| **Amcan: 3**<br>**Cam: R** | Gwella cynnydd disgyblion sy’n derbyn Prydau Ysgol am Ddim (FSM) ym mhob cyfnod allweddol, yn enwedig cyfnod allweddol 4, drwy sicrhau bod gwasanaethau’r awdurdod lleol yn cyd-fynd gyda’r ddarpariaeth ranbarthol ac yn ei chefnogi. |
| **Swyddog Adrodd:** | Andy Rothwell |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Mae 4 ysgol yn darparu cefnogaeth gyfannol ar gyfer addysgu i ysgolion eraill.<br>Mae 7 ysgol yn darparu cymorth dysgu proffesiynol i ysgolion eraill ar draws rhanbarth y GCA mewn amrywiaeth o feysydd cwricwlwm, a hynny fel Ysgolion Rhwydwaith Dysgu.<br>Mae pob ysgol yn rhan o raglen asesu a dilyniant cwricwlwm y clwstwr sy'n cefnogi datblygu dulliau sy'n seiliedig ar ffocws a chydlyniad.<br>Mae 4 ysgol uwchradd yn cymryd rhan yn y Rhwydwaith Dylunio Uwchradd, gan gefnogi ysgolion i rannu dulliau o ymdrin â dysgu proffesiynol a dylunio'r cwricwlwm.<br>Mae Ysgol Gatholig Sant Alban yn ymwneud â datblygu pecyn cymorth asesu Cymru gyfan gyda Phrifysgol Glasgow.<br>Mae 2 ysgol yn derbyn cefnogaeth bwrpasol i ddatblygu Addysgu ac Arweinyddiaeth<br>Mae 1 ysgol yng nghategori Estyn o gymharu â 4 ysgol yn 2020/2. Cafodd 1 ysgol ei thynnu o’r categori yn 2022/23.<br>Mae 6 ysgol yn arwain dysgu proffesiynol sy'n cefnogi addysgu ac arweinyddiaeth ar draws yr GCA<br>Mae pob ysgol yn cymryd rhan yn y prosiect Ymchwiliad Proffesiynol Cenedlaethol sy’n canolbwyntio ar un o’r pum prif thema.<br>Mae bron i bob ysgol (96%) wedi cymryd rhan yn yr arolwg Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu i gefnogi eu datblygiad fel sefydliadau dysgu. Mae hyn yn cymharu’n dda â rhanbarthau eraill o ran y % uchaf o ysgolion u gymryd rhan yn yr arolwg.<br>Mae 'Grŵp Addysgu a Dysgu Cwricwlwm Cymru' yn gwella gallu'r ysgol i rwydweithio a rhannu ymarfer. Mae aelodaeth yn Nhorfaen yn 30 aelod allan o 380 o aelodau ar draws y rhanbarth. | |

| | |
|---|---|
| Mae Ysgol Abersychan wedi bod yn rhan o beilot y Fframwaith Rheoli Talent i nodi 10 arweinydd uchelgeisiol y dyfodol<br>Mae 16 arweinydd (16% o'r cyfanswm rhanbarthol) wedi hyfforddi fel Hyfforddwyr Hwyluso Cenedlaethol.<br>Mae 18 arweinydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen Hyfforddi a Mentora genedlaethol (9% o gyfanswm y boblogaeth)<br>Mae 12 pennaeth yn Nhorfaen yn cymryd rhan fel arweinwyr system ar draws y rhanbarth fel Partneriaid Gwella Ysgolion | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Rhaid oedd i'r ALl a'r GCA barhau i fod yn sensitif ac yn ymatebol i anghenion ysgolion am eu bod wedi parhau i wynebu heriau a ddeilliodd o'r pandemig. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y pandemig wedi effeithio ar rhai grwpiau o ddysgwyr yn fwy nag eraill<br>• Dysgwyr bregus a difreintiedig a'r rhai ag ADY<br>• Dysgwyr 16 oed a'r rhai sy'n cychwyn mewn darpariaeth ôl-16 – lle gallai pwysau ac ansicrwydd fod wedi effeithio ar hyder<br>• Blynyddoedd cynnar lle mae dysgwyr mewn perygl o golli cerrig milltir datblygiadol allweddol o ran eu hiaith, eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol, corfforol a gwybyddol<br>• Heriau penodol i ddysgwyr sy'n trochi yn y Gymraeg mewn aelwydydd uniaith Saesneg, yn cynnwys dysgwyr sy'n trosglwyddo o flynyddoedd 6-7. | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| • Adeiladu ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda – yn enwedig gydag agweddau ar waith a fu'n llwyddiannus fel rhan o'r cynnig rhithwir.<br>• Parhau i gefnogi ysgolion drwy gynnig sy'n cyd-fynd â disgwyliadau'r ALl a LlC a chysylltiadau ag ymchwil sy'n dod i'r amlwg.<br>• Osgoi'r 'adlamu' a manteisio ar gyfleoedd i archwilio ffyrdd arloesol o weithio sy'n cyflwyno profiadau dysgu ystyrlon.<br>• Parhau â chyfarfodydd amlasiantaeth ar gyfer ysgolion uwchradd sy'n destun mesurau arbennig. Mae hyn yn dilyn nifer cynyddol o astudiaethau achos sy'n dangos enghreifftiau o wella ysgolion a newid mawr o ran arweinyddiaeth.<br>• Ymgysylltu'n llawn â Chyfarfodydd Tîm o Amgylch yr Ysgol (TAS). Mae'r cyfarfodydd hyn rhwng yr ysgol, yr ALl a'r GCA nid yn unig yn monitro'r cynnydd a chefnogaeth a dderbyniwyd, ond gallant hefyd ddarparu cyfleoedd i ddatrys problemau a datblygu camau gweithredu ar gyfer gwella yn ogystal â herio tanberfformiad<br>• Darparu dysgu proffesiynol a chefnogaeth ar gyfer datblygu arweinyddiaeth ac addysgu ar draws y gweithlu cyfan, drwy'r ddarpariaeth gyffredinol, wedi ei thargedu a'i theilwra gan y GCA. | |
| | |
| **Amcan: 3**<br>**Cam: S** | Gweithio'n gynhyrchiol gyda phartneriaid i sicrhau bod ein cymunedau yn Deall Dementia. |
| **Swyddog Adrodd:** | Erin Roche |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Rydym wedi parhau i weithio gydag ysgolion, colegau, elusennau, grwpiau cymunedol a phartneriaid ledled Gwent, i ddarparu sesiynau Cyfeillion Dementia ar lein ac wyneb yn wyneb a chefnogi cysylltiadau ar-lein gyda chymunedau. Llwyddwyd i greu ***1,468 o Gyfeillion Dementia*** yn ystod ***98*** o sesiynau yn ***2022 – 2023.*** Mae BIPAB hefyd wedi cyflwyno sesiwn Cyfeillion Dementia i bob aelod newydd o staff, yn rhan o'u rhaglen sefydlu. | |

Mae rhaglen waith Pontio'r Cenedlaethau yng Ngwent yn parhau i dyfu, gydag ysgolion yn derbyn cefnogaeth gweithdai/sesiynau Cyfeillion Dementia, ac yna cysylltu â chartrefi gofal, cymorth cymunedol ac ysbytai i rannu gweithgareddau a dysgu i wella cynhwysiant cymdeithasol a lleihau unigedd.

Ar hyn o bryd mae gan ein grŵp Cymunedau sy'n Deall Dementia yng Ngwent, dros 170 o bartneriaid ac aelodau o'r gymuned, yn rhan o'r rhwydwaith. Mae aelodaeth yn parhau i gynyddu wrth i bob un sy'n bresennol yn y sesiwn Cyfeillion Dementia dderbyn gwahoddiad i ymuno. Mae'r grŵp yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddementia, cynhwysiant a chefnogaeth ledled Gwent.

Rydym yn parhau i gefnogi'r prosiect Cyrraedd Yno Gyda'n Gilydd yng Ngwent. Mae'r grŵp cenedlaethol ar hyn o bryd yn datblygu a threialu Ap i bobl sy'n dioddef o ddementia a'u gofalwyr. Mae'r Ap yn cynnwys yr holl adnoddau ac yn caniatáu i bobl addasu'r cynnwys i gefnogi eu hanwyliaid.

Mae Cymunedau Sy'n Deall Dementia yng Ngwent yn cefnogi'r Bwrdd Dementia i sicrhau bod Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan yn barod i'w weithredu'r flwyddyn nesaf. Rhan o'r gwaith hwn oedd ymgysylltu â chymunedau yn ardal Casnewydd i ganfod beth mae gofal dementia yn ei olygu iddynt hwy. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gydag arweinwyr yn y maes Dementia i ddarparu gweminarau 'pwrpasol' i bobl sydd yn Fyddar, pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, gofalwyr, pobl LHDTC+ yn ogystal â hwyluso cyfleoedd i ymgysylltu yn y dydd a gyda'r nos. Cawsom gefnogaeth i ymgysylltu â grwpiau amrywiol gan ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain, arweinwyr cenedlaethol LHDTC+, hwyluswyr lleiafrifoedd ethnig ac arweinwyr y Gymraeg. Hyd yn hyn, mae 150 o bobl wedi cymryd rhan yn y Gweminarau, ac mae mwy wedi'u cynllunio ar gyfer 2023.

Rydym wedi cefnogi BIPAB a phartneriaid i fabwysiadu Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia i Gymru. Bydd hyn yn cefnogi ac yn ysgogi gwella ansawdd ar draws ysbytai, i gefnogi gwella gofal a phrofiadau i bobl sy'n dioddef o ddementia, eu teuluoedd, a'u gofalwyr, yn rhan o waith Llwybr Safonau Cenedlaethol ar Ofal Dementia Mae'r animeiddiad canlynol wedi'i greu i godi mwy o ymwybyddiaeth ynghylch y siarter a'i nodau: Saesneg https://youtu.be/KudreUFNZ-E / <https://youtu.be/KudreUFNZ-E%20/> Cymraeg <https://youtu.be/8gu4AB5VFLM> Trwy ddefnyddio Twitter, Facebook, mewnrwyd fewnol a thudalennau gwe allanol, mae BIPAB wedi disgrifio'r cynlluniau gwella sy'n cefnogi'r Siarter Ysbyty Sy'n Deall Dementia a gofal dementia yn gyffredinol yn cynnwys Ymgyrch John, byrddau wrth ymyl gwelyau cleifion, cymdeithion dementia gwirfoddol, Hwyluswyr Dementia a gwybodaeth i ofalwyr.

Fel rhan o Wythnos Weithredu Dementia 2023, fe wnaeth Cymunedau Sy'n Deall Dementia yng Ngwent ochr yn ochr â Chymunedau Digidol Cymru gynnig sesiynau hyfforddi am ddim ar leim i bobl sy'n dioddef o ddementia, eu teulu, cyfeillion, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Rhoddodd y sesiynau gyfle i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch dementia a dealltwriaeth o fewn y gymuned gan roi gwybodaeth ymarferol i bobl, fel y gallant gefnogi eraill sy'n dioddef o ddementia, i fyw'n dda yn y gymuned.

Cynhaliwyd cyfanswm o 6 sesiwn, gan gynnwys:

- Gweithgareddau Digidol (denwyd 24 o bobl)
- Adrodd Storïau Digidol (denwyd 24 o bobl)

- Offer Digidol i Gefnogi Pobl sy'n Dioddef o Ddementia (denwyd 16 o bobl)
- Hel atgofion (denwyd 18 o bobl)
- Seinyddion a Dyfeisiau Clyfar (denwyd 15 o bobl)
- Sut y gall Offer Digidol gefnogi pobl o ran Costau Byw (denwyd 9 o bobl)

***“Diolch am y sesiynau hyfforddi yr wythnos hon - maen nhw wedi bod yn ysbrydoledig iawn!" – Aelod o Dîm Cymunedau sy’n Deall Dementia, Gwent***

Fe wnaeth cynllun cyfathrebu cyfryngau cymdeithasol gefnogi hysbysebu’r sesiynau hyfforddi am ddim ar gyfrifon Twitter a Facebook y BPRh. Paratowyd blog gyda CDC i dynnu sylw at y bartneriaeth, Wythnos Gweithredu Dementia a’r hyfforddiant ei hun – https://www.digitalcommunities.gov.wales/blog/dementia-action-week-2023-free-digital-skills-training-to-help-people-living-with-dementia/

Aethom ati i gynnal Cynhadledd Flynyddol Cymunedau Sy’n Deall Dementia yng Ngwent ym mis Medi 2022, sef y cyntaf ers y pandemig. Roedd hwn yn gyfle i weithwyr proffesiynol, arbenigwyr drwy brofiad a chymunedau, i ddod at ei gilydd i rannu dysgu, syniadau a chydweithio i wella ymwybyddiaeth, cynhwysiant a chefnogaeth. Denodd y digwyddiad 135 o bobl ac fe wnaeth 34 arall ddod i’n cynhadledd gweminar gyda’r nos. Neilltuwyd y prynhawn i’r Rhestr Borffor, Dementia Hoyw, a chyflwynwyd y perfformiad/hyfforddiant hwn gan Libby Pearson ac Ian Baxter. Roedd yr hyfforddiant yn ddarn unigol o theatr, a ddefnyddiwyd fel offeryn hyfforddiant i dynnu sylw at ystod o faterion yn ymwneud â dementia ac amrywiaeth i’r rheiny sy’n gweithio yn y maes gofal cymdeithasol a’r rheiny sy’n gofalu am bob sy’n dioddef o ddementia neu’n gysylltiedig â hwy.

***“Emosiynol iawn!” – Un o fynychwyr y Gynhadledd***

**Pa heriau a gafwyd?**

Bu llawer o heriau yn ystod 2022/2023 gyda nifer o newidiadau’n mynd rhagddynt yng Nghymdeithas Alzheimer, gyda rôl yr Hwylusydd Dementia yn newid i fod yn fodel Llysgennad Dementia yr un modd â Lloegr. Mae hyn wedi effeithio ar Gyfeillion Dementia, a'r broses achredu 'Gweithio tuag at Ddeall Dementia' ar gyfer Ysgolion / Sefydliadau sy'n Deall Dementia. Rydym wedi gweithio ochr yn ochr â Chymdeithas Alzheimer a chymunedau i sicrhau bod newidiadau hyn wedi digwydd yn llyfn, gan greu cyfleoedd i bartneriaid ac aelodau’r gymuned drafod y newidiadau a chodi ymholiadau a phryderon drwy gyfarfodydd Cymunedau Sy’n Deall Dementia yng Ngwent.

Mae newidiad o rôl Hyrwyddwr Dementia i Lysgennad Dementia wedi arwain at ostyngiad yn nifer y Llysgenhadon yng Ngwent ac rydym yn gweithio’n galed i gysylltu â Hwyluswyr Blaenorol, i’w denu i fod yn Llysgenhadon, yn ogystal â chynyddu’r niferoedd ar draws y rhanbarth. Rydym yn casglu rhestr aros o bartneriaid sy'n dymuno bod yn Llysgenhadon Dementia yn barod ar gyfer yr adeg y bydd Cymdeithas Alzheimer yn rhyddhau dyddiadau’r rhaglen hyfforddi newydd.

Bydd proses achredu Cymdeithas Alzheimer ‘gweithio Tuag at Ddeall Dementia’ ar gyfer Ysgolion/Sefydliadau Sy’n Deall Dementia yn dod i ben ar ddiwedd 2023. Rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Alzheimer, rhwydwaith Cymunedau Sy’n Deall Dementia yng Ngwent a chymunedau ehangach i ddeall yr hyn bydd y newidiadau yn eu golygu i Went a datblygu rhaglen etifeddiaeth i barhau a’r gwaith hwn.

| |
|---|
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** |
| Byddwn yn parhau i gefnogi ein cymunedau ac rydym ar hyn o bryd yn edrych ar y cymorth sydd ar gael, er mwyn i ni allu gweld lle mae bylchau yn ei Cymunedau sy'n Deall Dementia.<br><br>Byddwn yn parhau i weithio gydag arweinwyr y Bwrdd Dementia, er mwyn sicrhau bod Cymunedau sy'n Deall Dementia yng Ngwent yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.<br><br>Gydag achrediad 'Gweithio tuag at Ddeall Dementia' y Gymdeithas Alzheimer yn dod i ben ar ddiwedd 2023, o 2024 bydd proses achredu 'Gwent Sy'n Deall Dementia' yn cael ei datblygu a'i dechrau i barhau a gwaith y DFC ar draws y rhanbarth gan roi cyfle i ni ymgysylltu a'r gwaith rhagorol sy'n mynd rhagddo yn y gymuned, a'i gydnabod.<br><br>Mae ein Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth (PNA) wedi amlygu anghenion pobl sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Datblygwyd ein Cynllun Ardal man i adlewyrchu'r anghenion hynny a'r camau y byddwn yn eu cymryd i wella bywydau. Mae'r Cynllun Ardal yn ffurfio'r rhaglen waith ranbarthol ar gyfer dementia ledled Gwent ac mae hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd, er mwyn sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. |

| | |
|---|---|
| **Amcan: 3**<br>**Cam: T** | Gweithio i gefnogi amrywiol unigolion a grwpiau gydag anableddau e.e. Clefyd Niwronau Motor. |
| **Swyddog Adrodd:** | Stuart Lawrence |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Trwy gydol 2022/23 gofynnwyd i aelodau anabl ba bethau yr hoffent eu gweld neu eu gweld yn cael eu creu.<br>Crëwyd *Disability dance* mewn partneriaeth ag Able a'i aelodau ac erbyn hyn gall aelodau'r gymuned fynychu ar sail talu a chwarae.<br>Mae *Shadow Valley Crossfit* wedi mynychu cwrs addasu ar gyfer anableddau, i hyfforddwyr ac maent yn cynnal sesiynau wedi'u haddasu erbyn hyn.<br>Mae 5 unigolyn wedi mynychu'r cwrs beicio i'r anabl ar gyfer beiciau sydd wedi eu haddasu ac mae ail gwrs yn cael ei gynnal i rhoi'r sesiynau anabledd ar ben ffordd dros yr haf. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Nid yw Chwaraeon Anabledd Cymru bellach yn ariannu swyddog penodol ac mae bellach wedi'i gynnwys mewn rolau swyddogion generig. | |

| | |
|---|---|
| **Amcan 4**<br>*Cynnwys pobl a chymunedau yn y materion sy'n bwysig iddyn nhw a'r penderfyniadau rydym yn eu cymryd* | |
| **Amcan: 4**<br>**Cam: A** | Sicrhau bod cymaint o gyhoeddusrwydd ag y bo modd i ymgynghoriadau. |
| **Swyddog Adrodd:** | Louise Day/Steven Honeywill |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Mae ymgynghoriadau yn parhau i gael eu cyfleu mor eang â phosibl. Yn 2022 cyflwynwyd ein platfform newydd ar gyfer ymgynghoriadau, sef Dweud Eich Dweud Torfaen. Rydym wedi | |

cynyddu nifer y cyfranogwyr sydd wedi cofrestru ar y safle, i 547 hyd yma. Rydym wedi datblygu cylchlythyr sy'n cael ei anfon i bawb sydd wedi cofrestru i'w hysbysu ynghylch yr ymgynghoriadau sy'n mynd rhagddynt yn ogystal â rhai sydd ar y gorwel.

Mae ein swyddog ymgysylltu wedi ail-lansio grŵp Panel Pobl Torfaen a chynnal dau gyfarfod wyneb yn wyneb i drafod gwaith y cyngor, yn cynnwys Torfaen y Dyfodol: Cynllun Sirol. Mae hi hefyd wedi cyfrannu'n rheolaidd at y tri fforwm 50+ a Fforwm Mynediad Torfaen i'w hysbysu ynghylch ymgynghoriadau.

Roedd ein cyfraniad at ymgysylltu â Chynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn cynnwys grwpiau ffocws gyda grŵp ieuenctid LHDTQ+, grŵp tadau newydd a Fforwm Darparwyr Gofal Rhanbarthol y BPRh, yn ogystal â mynychu cyfarfodydd Panel Dinasyddion Gwent a'r fforymau 50+, sicrhau ein bod yn derbyn sylwadau gan y rheiny y gwyddwn eu bod yn llai tebygol o ymateb i arolygon ar lein. Fe wnaethom hefyd ddarparu deunyddiau ymgynghori Hawdd eu Deall yng nghynhadledd flynyddol Anabledd Dysgu Cymru.

Mae pob sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb yn cael ei hyrwyddo ar lwyfan Dweud Eich Dweud Torfaen, cyfryngau cymdeithasol a gwefan Cyngor Torfaen. Rydym wedi paratoi taflenni sy'n hyrwyddo'r llwyfan i'r trigolion hynny nad ydynt yn dilyn sianeli'r cyngor ar lein fel mater o drefn.

Rydym yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg i bapurau newydd lleol ac ym mis Mawrth 2023, ail-lansiodd y cyngor ei gylchlythyr cymunedol Llais Torfaen, a gafodd ei ddosbarthu i bob aelwyd yn Nhorfaen. Yn y cylchlythyr ceir manylion ymgynghoriadau fydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol fel arolwg Codi'r Gyfradd.

| | |
|---|---|
| **Amcan: 4**<br>**Cam: B** | Ymgymryd ag ymarfer mapio ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol e.e. pobl hŷn, pobl LHDTC+. . |
| **Swyddog Adrodd:** | Sarah Tipping |

**Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?**

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, fe wnaeth BGC Gwent ymgynghori ar ei Gynllun Llesiant. Fel rhan o'r broses ymgysylltu ar gyfer y cynllun, cytunodd yr holl bartneriaid i fapio a mynd at grwpiau cymunedol a oedd yn cynrychioli unigolion â nodweddion gwarchodedig i sicrhau bod pawb yn ein cymunedau yn cael llais. Mae'r gwaith hwn wedi ein galluogi i ymgysylltu â gwahanol grwpiau, datblygu cysylltiadau ac atgyfnerthu'r berthynas y gallwn ei defnyddio yn y dyfodol yn Nhorfaen ac yn rhanbarthol.

| | |
|---|---|
| **Amcan: 4**<br>**Cam: C** | Gwella cyfranogiad gyda grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol e.e. pobl hŷn, pobl LHDTC+. |
| **Swyddog Adrodd:** | Sarah Tipping |

**Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?**

Fel yr amlygwyd uchod, gwnaethom gynnal gwaith ymgysylltu yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig yn 2022 sydd wedi rhoi cysylltiadau defnyddiol ac adborth ar gyfer gwaith ymgysylltu yn y dyfodol.

**Pa heriau a gafwyd?**

Mae ymgysylltu â phob grŵp yn ein cymunedau yn parhau i fod yn her ar ôl CV-19 wrth i ni ymateb i’r newid mewn patrymau ymddygiad.

**Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?**

Parhau i ehangu ein cyrhaeddiad ym mhob gweithgaredd ymgysylltu.

| | |
|---|---|
| **Amcan: 4**<br>**Cam: D** | Sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cyfle i leisio barn ar faterion sydd yn effeithio arnynt hwy (Erthygl 12 UNCRC). |
| **Swyddog Adrodd:** | Rhiannon Bennett |

**Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?**

Mae cynnwys plant a phobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau wedi bod yn gadarnhaol.

- Cymerodd Fforwm Ieuenctid Torfaen y camau cyntaf i greu adnoddau hawdd eu defnyddio gan godi ymwybyddiaeth am y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd
- Gan gydweithio â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, trefnodd a chynhaliodd aelodau Fforwm Ieuenctid Torfaen ddigwyddiad 'Amser Cwestiynau’ i Bobl Ifanc a hynny gyda chryn lwyddiant ym Mharth Dysgu Torfaen, Cwmbrân. Roedd y digwyddiad hwn yn cynnwys araith agoriadol gan Gomisiynydd Plant Cymru. Rhoddodd y digwyddiad lwyfan i dros 100 o bobl ifanc fynd ati’n uniongyrchol i holi’r rheini’n sy’n gwneud penderfyniadau allweddol.
- Mae cynllun 'Llysgenhadon Ieuenctid' Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn mynd rhagddo gyda thri aelod ymroddedig o Dorfaen.
- Yn ogystal, cefnogwyd tri unigolyn ifanc i fynychu Fforwm Ieuenctid Rhanbarthol Gwent, gan feithrin eu hymgysylltiad â materion ieuenctid rhanbarthol.

Yng Nghwmbrân, cynhaliwyd dau weithdy yn cynnwys 18 o bobl ifanc a rhoddodd eu barn a’u sylwadau gwerthfawr ar 'Gynlluniau Creu Lleoedd' Cwmbrân. Ystyriwyd eu safbwyntiau'n ofalus, gan bwysleisio ymhellach pa mor bwysig yw cyfranogiad ieuenctid o ran lywio'r gymuned.

**Pa heriau a gafwyd?**

Mae digon o waith wedi bod i fynd i’r afael ag ef. Ond, mae’r gallu yn parhau i fod yn weddol isel wrth i ni ddod allan o’r pandemig.

**Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?**

Cefnogi mwy o feysydd gwasanaeth i gynnwys pobl ifanc wrth gynllunio gwasanaethau a dweud eu dweud.

| | |
|---|---|
| **Amcan: 4**<br>**Cam: E** | Annog gwasanaethau sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i fabwysiadu’r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl ifanc yng Nghymru. |
| **Swyddog Adrodd:** | Rhiannon Bennett |

**Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?**

Er mwyn hyrwyddo ymgysylltu’n ystyrlon â phobl ifanc, mae Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus Torfaen wedi ymgorffori'n llwyddiannus y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

| | |
|---|---|
| Er mwyn sicrhau ymgysylltiad o ansawdd uchel, anogir darparwyr gwasanaethau i lenwi ffurflen 'Protocol Cyfranogi' (sy'n cyd-fynd â'r Safonau) wrth gynnwys pobl yn eu gwaith. Defnyddiwyd y ffurflen hon mewn mentrau sylweddol fel y Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ac ymgynghoriadau Economi a Sgiliau Torfaen ar gyfer Creu Lleoedd.<br><br>Panel Rhianta Corfforaethol Torfaen hefyd wedi croesawu'r Safonau wrth ddrafftio eu Strategaeth Rhianta Corfforaethol newydd. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Mae canllawiau a chefnogaeth genedlaethol i weithredu'r Safonau wedi bod yn wael. | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Mae diweddariad diweddar gan Plant yng Nghymru wedi ein hysbysu bod y Safonau bellach wedi'u gohirio ac yn cael eu hadolygu. Maent yn disgwyl y bydd y Safonau diwygiedig a'r adnoddau ategol ar gael o fis Tachwedd 2023. | |
| | |
| **Amcan: 4**<br>**Cam: F** | Cynyddu cyfranogiad pobl ifanc nad ydynt yn cael eu clywed yn aml yn yr awdurdod lleol ac ymgynghoriadau partneriaethau, i wella ein dealltwriaeth o'u hanghenion a'u gwerthoedd. |
| **Swyddog Adrodd:** | Rhiannon Bennett |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Penodwyd 12 llysgennad ar draws y rhanbarth i hwyluso'r lansiad a'r hyfforddiant ar gyfer adnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol. Rhannwyd y ffilm fer sy'n codi ymwybyddiaeth a'r cyflwyniad PowerPoint gyda'r pwyllgor Craffu Addysg ar yr 2il o Chwefror 2023. Mae'r derbyniad cadarnhaol wedi ysgogi'r pwyllgor craffu i annog gwasanaethau eraill i fabwysiadu dull tebyg o weithredu.<br><br>At hynny, mae Gweledigaeth a Strategaeth ADY wedi cael ei chyflwyno i aelodau Fforwm Pobl Ifanc Torfaen. Gan gydnabod pwysigrwydd hygyrchedd, mae aelodau'r fforwm ieuenctid wedi cytuno i ddylunio fersiwn hawdd ei ddarllen/hygyrch o'r ddogfen. Penderfynwyd mai Gorffennaf 2023 fyddai dyddiad cwblhau'r dasg bwysig hon. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Mae disgyblion sy'n ymwrthod â'r ysgol ac yn cael trafferth cael mynediad at grwpiau oherwydd pwysau allanol yn golygu y cafwyd rhai anghysondebau wrth fynd ati i geisio darparu. | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Ailgysylltu a chefnogi grwpiau amrywiol i ail ymgysylltu. | |
| | |
| **Amcan: 4**<br>**Cam: G** | Datblygu'r Senedd Ieuenctid ar gyfer Torfaen. |
| **Swyddog Adrodd:** | Rhiannon Bennett |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Mae Cam 1 prosiect Cynghrair Ieuenctid Torfaen (TYA) wedi'i gwblhau'n llwyddiannus gyda Chyfnod 2 wedi'i gyflwyno o fis Mawrth 2023. Gellir dod o hyd i amserlen gynhwysfawr o'r hyn a ddarperir yng Nghynllun Gweithredu Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. | |

| | |
|---|---|
| Mae Aelod Seneddol Ieuenctid Torfaen (ASI) wedi cael blwyddyn weithgar yn cyflawni ei dyletswyddau a oedd yn cynnwys cynnal pleidlais ymysg y bobl ifanc i ganfod pa faterion oedd bwysicaf i bobl ifanc yn Nhorfaen. Dangosodd y canlyniadau fod iechyd meddwl a lles a'r argyfwng costau byw yn uchel ar y rhestr o bryderon i bobl ifanc yn Nhorfaen. Bu'r ASI hefyd yn arwain y ddadl ar ran Cymru adeg achlysur flynyddol Senedd Ieuenctid y DU yn Nhŷ'r Cyffredin. Fel rhan o'i phortffolio, mae hi wedi ariannu prosiect '*Resilient me*' i ddisgyblion yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD). | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Gall cyfarfodydd CIT fod yn achlysurol, sy'n rhwystro cyfleoedd i feithrin perthnasoedd ac ymdeimlad o bwrpas y grŵp | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Cyflenwi sesiwn Cynghrair Ieuenctid ledled Torfaen. | |
| | |
| **Amcan: 4**<br>**Cam: H** | Gweithredu arf Asesu Effaith Hawliau'r Plentyn |
| **Swyddog Adrodd:** | Rhiannon Bennett |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Ni wnaed cynnydd. | |
| | |
| **Amcan: 4**<br>**Cam: I** | Datblygu cyfleoedd pellach i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. |
| **Swyddog Adrodd:** | Rhiannon Bennett |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Mae VAWDASV, Grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu Byrddau Diogelu Gwent, Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG) a Phanel Dinasyddion Gwent wedi nodi cyfleoedd i bobl ifanc ddweud eu dweud. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda phobl ifanc ynglŷn â sut y dylai hyn edrych.<br><br>Mae Panel Rhianta Corfforaethol Torfaen yn ysgrifennu ei strategaeth ac yn llunio addewidion. Darparwyd cyfres o weithdai i glywed barn pobl ifanc mewn ymgais i'w hymgorffori yn y weledigaeth a sicrhau bod y weledigaeth yn ystyrlon a pherthnasol. Mae 3 o bobl ifanc hefyd yn cymryd rhan yng ngwaith y Panel. | |
| **Pa heriau a gafwyd?** | |
| Gall ymgorffori prosesau ansawdd a phrofi cyfleoedd ymgysylltu sy'n hygyrch ac ystyrlon i'r bobl ifanc gymryd llawer o amser | |
| **Beth yw eich nodau ar gyfer 2023/24?** | |
| Cynrychiolaeth pobl ifanc yn y grwpiau uchod | |

| **Amcan 5**<br>*Sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio gyda'i ddyletswyddau statudol o ran cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg* | |
|---|---|
| **Amcan: 5**<br>**Cam: A** | Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar amser, ar ôl ystyriaeth a gwaith crafu mewnol. |
| **Swyddog Adrodd:** | Sarah Tipping |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Mae'r cam hwn yn cael ei gwblhau bob blwyddyn. | |
| | |
| **Amcan: 5**<br>**Cam: B** | Ymgorffori'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd yn yr asesiadau Effaith ar Les. |
| **Swyddog Adrodd:** | Sarah Tipping |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Cwblhawyd hyn yn ystod 2019/20. | |
| | |
| **Amcan: 5**<br>**Cam: C** | Sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei roi yn gyson i agweddau cydraddoldeb o fewn Asesiadau Effaith ar Les. |
| **Swyddog Adrodd:** | Sarah Tipping |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Arolygwyd Asesiadau Effaith ar Les (Asesiadau Effaith Integredig) a'u gwella. Mae angen i swyddogion CBST ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig ac esbonio'r effeithiau positif a/neu negyddol posibl wrth gynhyrchu adroddiadau i'r Cyngor ac aelodau'r Cabinet, ac mae angen iddyn nhw ystyried yr effeithiau hyn yn ofalus a herio os oes angen cyn cymerir penderfyniadau. | |
| | |
| **Amcan: 5**<br>**Cam: D** | Tîm cydraddoldeb i gynghori ar arferion a chymalau (gan gynnwys eu gwerthuso) sy'n hyrwyddo cydraddoldeb y gellir eu hymgorffori mewn ymarferion caffael a hefyd monitro eu cydymffurfiad ar y cyd â'r rheolwyr gwasanaeth perthnasol sy'n rheoli'r contractau ar ôl ymarfer caffael. |
| **Swyddog Adrodd:** | Sarah Tipping |
| **Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2022/23?** | |
| Mae'r tîm cydraddoldeb yn rhoi cyngor a chymorth drwy'r amser i bob maes yn y cyngor. | |
| | |
| **Amcan: 5**<br>**Cam: E** | Asesu nifer y cwynion sy'n cynnwys elfen Cydraddoldeb neu iaith Gymraeg. |
| **Swyddog Adrodd:** | Sarah Tipping / Alan Vernon-Jones |
| **Cwynion a dderbyniwyd yn 2022/23** | |
| <u>Cam 1 (fe wnaeth CBST ddelio ag ef)</u><br>COR22/S1/005 – Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 22/05/2022<br>Diffyg croes hyrwyddo ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor o'r Saesneg i'r Gymraeg a Chymraeg i'r Saesneg | |

Comisiynydd y Gymraeg

Dechreuwyd 3 ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg.

CS1070 - Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 17/10/2022
Mae'r Saesneg yn ymddangos gyntaf, cyn y testun Cymraeg, mewn cylchlythyr wythnosol gan y Cyngor - 'Bwletin Newyddion Wythnosol Torfaen'.

CS1121 – Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 03/03/2023
Bydd yn rhaid i riant symud ei merch o addysg o addysg cyfrwng Cymraeg i ysgol Saesneg ei hiaith gan fod un yn nes at ei chyfeiriad ac o fewn llwybr cerdded addas a mwy diogel.

CS1130 - Parhaus - Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 27/03/2023
Arwydd llwybr beicio uniaith Saesneg wedi'i leoli ar gyffordd Tŷ Coch Way a Hollybush Way yng Nghwmbrân.

# Gwybodaeth Ychwanegol

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Sefydlwyd Bwrdd gwasanaethau Cyhoeddus Gwent ym mis Medi 2021 dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n cynnwys Arweinwyr a Phrif Weithredwyr gwasanaethau cyhoeddus lleol.

Cwblhaodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Asesiad o Les ym mis Mai 2022. Mae'n asesiad cynhwysfawr o le ac yn darparu gwybodaeth ar gyfer y BGC a holl wasanaethau cyhoeddus eraill er mwyn bwydo gwybodaeth i a datblygu strategaethau a chynlluniau lleol; yn dilyn yr asesiad crëwyd Cynllun Llesiant fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2023.

Mae gwybodaeth ar BGC Gwent – yr aelodau, y cyfarfodydd, yr asesiad a'r cynllun – i'w gweld ar y wefan yn: http://www.gwentpsb.org/

## Cynllun Sirol

Yn 2022, cyhoeddwyd ein Cynllun Sirol newydd. Gellir ei ddarllen yma: https://www.torfaen.gov.uk/en/AboutTheCouncil/ImprovingTorfaen/County-Plan/County-Plan-2022-2027.aspx